**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# PWYLLGOR SAFONAU

# STANDARDS COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**10.30am, DYDD MAWRTH, 27 TACHWEDD, 2012**

**10.30am, TUESDAY, 27 NOVEMBER, 2012**

Lleoliad / Location

**Ystafell Dwyryd,**
**Canolfan Gyswllt / Contact Centre,**
**Penrhyndeudraeth**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**Eirian Roberts**

**(01286) 679018**

**maireirianroberts@gwynedd.gov.uk**

*Dosbarthwyd/Distributed 19/11/12*

# PWYLLGOR SAFONAU
# STANDARDS COMMITTEE

**Aelodaeth/Membership**

**Aelodau Etholedig / Elected Members (3)**

Y Cynghorwyr/Councillors
Charles Wyn Jones
Eryl Jones-Williams
Michael Sol Owen

**Aelodau Annibynnol / Independent Members (5)**

Ms Linda Byrne
Mr Gwilym Ellis Evans
Miss Margaret E Jones
Mr Sam W Soysa
[sedd wag / vacant seat]

**Aelod Pwyllgor Cymuned / Community Committee Member (1)**

Y Cynghorydd / Councillor David Clay

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfodydd o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y dyddiadau isod fel rhai cywir:-

(a) 2 Gorffennaf, 2012 (copi yma – papur melyn).
(b) 26 Medi, 2012 (copi yma – papur glas).

**5. FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU**

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (copi yma – papur hufen).

**6. CYNHADLEDD SAFONAU 2013**

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (copi yma – papur lelog).

**7. CANLLAWIAU'R OMBWDSMON**

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (copi yma – papur eog).

**8. HONIADAU YN ERBYN AELODAU**

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (copi yma – papur llwyd).

**9. RHAGLEN WAITH**

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (copi yma – papur gwyrdd).

**10. PROTOCOL RHODDION A LLETYGARWCH AELODAU**

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (copi yma – papur pinc).

**11. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL DYFARNU CYMRU 2011-2012**

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (copi yma – papur melyn).

**12. ADRODDIAD BLYNYDDOL YR OMBWDSMON 2011-2012**

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (copi yma – papur glas).

# AGENDA

**1. APOLOGIES**

To receive any apologies for absence.

**2. DECLARATION OF PERSONAL INTEREST**

To receive any declaration of personal interest.

**3. URGENT ITEMS**

To note any items that are a matter of urgency in the view of the Chairman for consideration.

**4. MINUTES**

The Chairman shall propose that the minutes of the meetings of this committee held on the undermentioned dates be signed as true records:-

(a) 2 July, 2012 (copy herewith – yellow paper).
(b) 26 September, 2012 (copy herewith – blue paper).

**5. NORTH WALES STANDARDS COMMITTEES FORUM**

To consider the report of the Monitoring Officer (copy herewith - cream paper).

**6. STANDARDS CONFERENCE 2013**

To consider the report of the Monitoring Officer (copy herewith - lilac paper).

**7. THE OMBUDSMAN'S GUIDELINES**

To consider the report of the Monitoring Officer (copy herewith - salmon paper).

**8. ALLEGATIONS AGAINST MEMBERS**

To consider the report of the Monitoring Officer (copy herewith - grey paper).

**9. WORK PROGRAMME**

To consider the report of the Monitoring Officer (copy herewith - green paper).

**10. PROTOCOL FOR MEMBERS ON GIFTS AND HOSPITALITY**

To consider the report of the Monitoring Officer (copy herewith – pink paper).

**11. ADJUDICATION PANEL FOR WALES – ANNUAL REPORT 2011-2012**

To consider the report of the Monitoring Officer (copy herewith - yellow paper).

**12. THE OMBUDSMAN'S ANNUAL REPORT – 2011-2012**

To consider the report of the Monitoring Officer (copy herewith - blue paper).

# Cais am Ollyngiad

**Dylech ddefnyddio'r ffurflen hon i gyflwyno cais i Bwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd am ollyngiad, h.y. caniatâd i gymryd rhan mewn trafodaeth er bod gennych *'fuddiant sy'n rhagfarnu'* o dan y Cod Ymddygiad. Mae gan y Pwyllgor yr hawl i ganiatáu cais os yw'r amgylchiadau'n dod o fewn un o'r paragraffau sydd ar yr Atodiad i'r ffurflen hon.**

**1. Enw** Cyng. Gareth Roberts **Cyngor** Gwynedd

**2. Beth yw'r eitem dan sylw?**

Cais yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol i adeiladu Canolfan Ragoriaeth Dwristiaid Arfordirol ym maes parcio Henfaes, Aberdaron

**3. Beth yw eich buddiant (h.y. eich cysylltiad gyda'r mater)?**

Fy nghysylltiad ydi i mi weithio i'r YG fel Warden Lleol am 12 mlynedd o 1985 i 1996, fy mod yn denant iddynt yma yn Cwrt ar hyn o bryd ac fy mod wedi bod yn rhan o'r Tîm ( fel y Cynghorydd lleol ) yn ogystal â chynrychiolydd arall o'r gymuned leol sydd wedi gweithio ar ddatblygu'r cynllun.

**4. Pam y credwch y dylech gael cymryd rhan yn y drafodaeth?**

Bwriad y datblygiad ydi creu math o ganolfan wybodaeth fyddai yn diddori pobl yn ystod yr haf ar dywydd gwael i gadw pobl yn lleol, cyfeirio pobl at safleoedd o ddiddordeb arbennig megis adar, llystyfiant, llwybrau, archeoleg, geoleg, golygfeydd, Enlli, llety, bwyty a.y.b fel bod y gymuned yn ehangach yn cael budd. Gobeithir hefyd wrth amlygu bendithion amgylcheddol amrywiol yr ardal ddenu ymwelwyr y tu allan i'r ffenestr draddodiadol. Mae ymrwymiad i beidio cystadlu efo unrhyw fusnes sy'n bodoli'n lleol yn barod ac os byddai menter fasnachol yn digwydd yna yn ychwanegol yn unig i'r ddarpariaeth bresennol y byddai ac nid yn cystadlu. Felly fy nadl i ydi na gweithredu er lles cyffredinol yr ardal yn unig wyf a heb unrhyw fantais bersonol i mi na'm teulu ac fy mod yn dymuno cael gollyngiad gan y pwyllgor safonau i'm galluogi i siarad o blaid y gymuned.

**5. Pa baragraff(au) sy'n berthnasol yn eich barn chi? (gweler atodiad)** (ch)

**6. Ydych chi'n gofyn am ollyngiad i siarad a phleidleisio neu i siarad yn unig?**

Siarad fel Aelod Lleol nid fel Aelod o'r Pwyllgor – dim efo pleidlais.

**7. Ydych chi'n gofyn am ollyngiad ar gyfer cyfarfod penodol (os felly nodwch pa un), neu un cyffredinol i gymryd rhan pryd bynnag fydd y mater yn codi?**

Cais yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol i adeiladu Canolfan Ragoriaeth Dwristiaid Arfordirol ym maes parcio Henfaes, Aberdaron

**Arwyddwyd** **Dyddiad** **21 Tachwedd 2012**

**Yr amgylchiadau lle gellir caniatáu gollyngiadau**

**"2. Caiff pwyllgor safonau awdurdod perthnasol ganiatáu gollyngiadau o dan adran 81(4) o'r Ddeddf -**

**(a) os oes gan ddim llai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol neu hanner aelodau un o bwyllgorau'r awdurdod (yn ôl fel y digwydd) y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw;**

**(b) os oes gan ddim llai na hanner aelodau gweithrediaeth arweinydd a chabinet y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw a bod naill ai paragraff (ch) neu baragraff (d) hefyd yn gymwys;**

**(c) yn achos cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, os byddai anallu aelod i gymryd rhan yn tarfu ar gydbwysedd gwleidyddol yr awdurdod perthnasol neu'r pwyllgor o'r awdurdod y mae'r busnes i'w ystyried ganddo i'r fath raddau nes y byddai'r canlyniad yn debygol o gael ei effeithio;**

**(ch) os yw natur buddiant yr aelod yn gyfryw fel na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y mae busnes yr awdurdod perthnasol yn cael ei gynnal;**

**(d) os yw'r buddiant yn gyffredin i'r aelod ac i gyfran arwyddocaol o'r cyhoedd;**

**(dd) os oes cyfiawnhad i'r aelod gymryd rhan yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod;**

**(e) os yw'r busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo i'w ystyried gan bwyllgor trosolygu a chraffu i'r awdurdod perthnasol ac nad yw buddiant yr aelod yn fuddiant ariannol;**

**(f) os yw'r busnes sydd i'w ystyried yn berthnasol i arian neu eiddo corff gwirfoddol y mae'r aelod yn aelod o'i bwyllgor neu ei fwrdd rheoli heblaw fel cynrychiolydd yr awdurdod perthnasol ac nad oes gan yr aelod unrhyw fuddiant arall yn y busnes hwnnw ar yr amod na fydd unrhyw ollyngiad yn ymestyn i gymryd rhan mewn unrhyw bleidlais mewn perthynas â'r busnes hwnnw; neu**

**(ff) os yw'n ymddangos i'r pwyllgor ei bod o les i drigolion ardal yr awdurdod perthnasol i'r anallu gael ei godi, ar yr amod bod hysbysiad ysgrifenedig bod y gollyngiad yn cael ei ganiatáu yn cael ei roi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn saith diwrnod a hynny mewn unrhyw fodd y gall ei bennu."**

**(Rheoliadau Pwyllgorau Safonau(Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001)**

# PWYLLGOR SAFONAU, 02.07.12

**Yn bresennol**:-

**Aelodau Etholedig:-** Y Cynghorwyr Charles Wyn Jones, Eryl Jones-Williams a Michael Sol Owen.

**Aelodau Annibynnol:-** Mr Gwilym Ellis Evans (Cadeirydd), Ms Linda Byrne, Miss Margaret E.Jones a Mr Sam Soysa.

**Aelod Pwyllgor Cymunedol:-** Mr David Clay.

**Hefyd yn Bresennol:** Dilys Phillips (Swyddog Monitro), Sion Huws (Swyddog Priodoldeb) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriad:-** Mr Gwyn Williams (Aelod Annibynnol).

## 1. ETHOL CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol Mr Gwilym Ellis Evans yn gadeirydd y pwyllgor hwn am ba un bynnag yw'r cyfnod byrraf o blith y canlynol (a) hyd at ddiwedd tymor y Cyngor presennol, neu (b) hyd nes bo ei dymor mewn swydd yn dirwyn i ben.**

Estynnodd y Cadeirydd air o groeso i'r aelodau newydd ar y pwyllgor.

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol Mr Sam Soysa yn is-gadeirydd y pwyllgor hwn am ba un bynnag yw'r cyfnod byrraf o blith y canlynol (a) hyd at ddiwedd tymor y Cyngor presennol, neu (b) hyd nes bo ei dymor mewn swydd yn dirwyn i ben.**

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 18 Ebrill, 2012 fel rhai cywir.

## 5. CYFLWYNIAD I WAITH Y PWYLLGOR

Derbyniodd yr aelodau gyflwyniad i waith y pwyllgor gan y Swyddog Monitro.

Dosbarthwyd pecyn gwybodaeth i'r aelodau yn cynnwys y dogfennau a ganlyn:-

- Dogfen yn egluro cylch gorchwyl y pwyllgor;
- Copi o'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau;
- Taflen yn crynhoi'r buddiannau hynny y mae'n ofynnol i gynghorwyr eu datgan;

- Safon Gwynedd;
- Canllawiau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar y Cod Ymddygiad (sydd ar fin cael eu diwygio).

Esboniodd y Swyddog Monitro gynnwys y gwahanol ddogfennau gan ymhelaethu ar rôl a swyddogaethau'r pwyllgor.

Awgrymodd fod cyfarfod nesaf y pwyllgor yn llunio rhaglen waith yn seiliedig ar y materion yr hoffai'r aelodau edrych arnynt dros y 5 mlynedd nesaf a gofynnodd i'r aelodau gyflwyno eu syniadau naill ai yn ystod y cyfarfod hwn neu rhwng hyn a diwedd yr haf.

Nododd hefyd fod croeso i'r ddwy aelod annibynnol newydd gael sgwrs gyda hi i fynd drwy'r Cod Ymddygiad mewn manylder.

Yna ymhelaethodd y Swyddog Priodoldeb ar ddwy agwedd arall o waith y pwyllgor, sef ystyried ceisiadau am ollyngiadau a chwynion yn erbyn aelodau.

Cyfeiriodd y Swyddog Monitro hefyd at rôl Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru.

Pwysleisiodd aelod y dylai'r holl glercod cynghorau cymuned a thref dderbyn hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Monitro y byddai'n trafod hyn gyda Chymdeithas y Clercod Cynghorau Tref a Chymuned ac yn adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf.

Llongyfarchwyd Mr David Clay ar gael ei benodi'n Gadeirydd Unllais Cymru ym Meirionnydd.

## 6. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 18C, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma yn berthnasol oherwydd ei fod yn ymwneud â thrafodion y Pwyllgor Safonau wrth ddod i benderfyniad ar fater a gyfeiriwyd ato. Credir na ddylid datgelu'r wybodaeth rhag ofn i unrhyw gyhoeddusrwydd ynglŷn â'r achos ragfarnu sefyllfa'r cynghorydd cyn unrhyw wrandawiad. Fel canlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

## 7. ADRODDIAD OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU AR YMCHWILIAD I GŴYN YN ERBYN Y CYNGHORYDD 'A' O GYNGOR GWYNEDD

Cyflwynwyd - adroddiad y Swyddog Monitro yn gofyn i'r pwyllgor ystyried adroddiad yr Ombwdsmon a dod i benderfyniad yn unol â gofynion y rheoliadau perthnasol.

Holodd y Cynghorydd Charles Wyn Jones a ddylai ddatgan buddiant yn yr eitem hon gan fod mam yr achwynydd yn ffrind agos iddo. Cadarnhaodd nad oedd yn adnabod yr achwynydd ei hun. Fe'i cynghorwyd gan y Swyddog Monitro fod ei gysylltiad â'r achwynydd yn ddigon pell i beidio creu buddiant. Ychwanegodd, fodd bynnag, fod y cwestiwn o fuddiant yn fwy tebygol o godi yng nghyswllt y ffaith bod yr aelod yn perthyn i'r un grŵp gwleidyddol â'r achwynydd na'i fod yn ffrind agos i'w fam, ond nid oedd cysylltiad aelod â grŵp arbennig yn ei ddatgymhwyso rhag ystyried ceisiadau sy'n dod gerbron y

pwyllgor. Gan hynny, ni chredai fod yna fuddiant yn yr achos hwn, ond 'roedd yn ofynnol i'r aelod ddod i'w gasgliad ei hun ar y mater.

Cyfeiriwyd at yr angen i gywiro dau wall yn y papurau, sef:-

(1) Atodiad 1 – Gweithdrefn Gwrandawiadau – Cam 2 y gwrandawiad – Penderfynu a wnaeth yr Aelod dorri'r Cod Ymddygiad.

Nodwyd y dylid cywiro'r trydydd pwynt bwled o dan y pennawd "*Rheolau Trafod Cyffredinol*" i ddarllen:-

- *Bydd y Pwyllgor yn penderfynu tystiolaeth ffeithiol yn ôl pwysau tebygolrwydd*.

(2) Atodiad E – Llythyr yn nodi bwriad yr Ombwdsmon i ymchwilio i'r gŵyn

Nodwyd bod y fersiwn Cymraeg o'r llythyr wedi'i ddyddio 17 Awst, 2011 a'r fersiwn Saesneg wedi'i ddyddio 9 Awst. Cytunodd y Swyddog Priodoldeb i wirio pa ddyddiad oedd yr un cywir.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Bod yna dystiolaeth o fethu â chydymffurfio â Chod Ymddygiad yr Awdurdod ac y dylid symud ymlaen i alw cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Safonau i ystyried a phenderfynu ar y mater gan awdurdodi'r swyddogion i wneud y trefniadau angenrheidiol.**

**(b) Bod unrhyw berson sy'n destun yr ymchwiliad yn cael cyfle i gyflwyno sylwadau, naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig, mewn perthynas â chasgliadau'r ymchwiliad ac unrhyw honiad ei fod wedi methu, neu y gallai fod wedi methu, â chydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod perthnasol.**

**(c) Bod swyddog yn rhoi'r papurau perthnasol yn llaw'r person sy'n destun yr ymchwiliad.**

**(ch) Y dylid chwilio am ddyddiad yn ystod mis Medi ar gyfer y gwrandawiad, ond pe na bai hynny'n bosib', y dylid cynnal y gwrandawiad ar 1 Hydref, sef y dyddiad a glustnodwyd ar gyfer cyfarfod arferol nesaf y Pwyllgor Safonau.**

**(d) Gwahodd yr Ombwdsmon i'r gwrandawiad, er nad yw'n angenrheidiol iddo fod yno.**

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00am a daeth i ben am 12.20pm.

# CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR SAFONAU, 26.09.12

**Yn bresennol:-**

**Aelod Etholedig:-** Y Cynghorydd Michael Sol Owen.

**Aelodau Annibynnol:-** Mr Gwilym Ellis Evans (Cadeirydd), Miss Margaret Jones a Mr Sam Soysa.

**Aelod Pwyllgor Cymunedol:-** Y Cynghorydd David Clay.

**Hefyd yn bresennol:**

Mr Eirwyn Pritchard (Swyddog Ymchwilio ar ran Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru).
Swyddogion Cyngor Gwynedd – Dilys Phillips (Swyddog Monitro), Siôn Huws (Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:-** Ms Linda Byrne (aelod annibynnol) a'r Cynghorwyr Charles Wyn Jones ac Eryl Jones-Williams (aelodau etholedig).

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**2. CYHUDDIAD YN ERBYN Y CYNGHORYDD AERON MALDWYN JONES, CYNGOR GWYNEDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r gwrandawiad a gofynnodd i bawb oedd yn bresennol gyflwyno'u hunain.

Yna, esboniodd y Cadeirydd natur / fformat y gwrandawiad.

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("Yr Ombwdsmon") ynglŷn â thoriadau honedig o God Ymddygiad i Aelodau Cyngor Gwynedd gan y Cynghorydd Aeron Maldwyn Jones, a gyfeiriwyd i'r Pwyllgor Safonau gan yr Ombwdsmon dan Adran 71(2) Deddf Llywodraeth Leol 2000 am benderfyniad.

Derbyniwyd cŵyn gan yr Ombwdsmon, ar 17 Gorffennaf 2011, fod y Cynghorydd Aeron Maldwyn Jones wedi methu â chadw at y Cod Ymddygiad i aelodau o Gyngor Gwynedd ("y Cod Ymddygiad") drwy ei fod, ar 6 Gorffennaf 2011, mewn postiad ar flog, wedi gwneud honiadau di-sail fod yr achwynydd yn bwriadu ymddeol yn fuan a mynd am sedd aelod arall ar y Cyngor. Dywedodd yr achwynydd fod yr honiadau yn anwir a chwynodd fod y Cynghorydd Jones wedi torri paragraff 6(1)(a) o'r Cod Ymddygiad (dwyn anfri ar swydd cynghorydd neu ar yr awdurdod) trwy wneud honiadau di-sail yn erbyn person oedd ar gyflogres y Cyngor ac wedi torri paragraff 7(a) (defnyddio neu geisio defnyddio safle cynghorydd i greu anfantais i berson arall) trwy wneud honiadau di-sail oedd â'r potensial i greu cryn anfantais i'r achwynydd yn broffesiynol.

Ni wnaeth y Cynghorydd Jones ymddangos yn y gwrandawiad ac nid oedd wedi ei gynrychioli. Eglurodd y Swyddog Monitro wrth y Pwyllgor bod ei hysgrifenyddes wedi derbyn galwad ffôn gan y Cynghorydd Jones y prynhawn blaenorol yn egluro na fyddai'n mynychu gan y byddai mewn cyfarfod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ond y byddai'n anfon llythyr i'w ddarllen yn y gwrandawiad. Erbyn cychwyn y gwrandawiad nid oedd llythyr o'r fath wedi cyrraedd y Swyddog Monitro na'r Pwyllgor.

Rhoddodd y Pwyllgor Safonau ystyriaeth pa un ai i barhau yn absenoldeb unrhyw gynrychioliadau gan y Cynghorydd Jones. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad fod y Cynghorydd Jones, oedd wedi derbyn rhybudd o ddyddiad a lle'r gwrandawiad trwy lythyr ar 19 Gorffennaf 2012, wedi cael digon o gyfle i gyflwyno cynrychioliadau ac nad oedd yn fodlon fod ganddo reswm digonol dros fethu a gwneud hynny, naill ai ar lafar neu mewn ysgrifen. Gan hynny, penderfynodd y Pwyllgor dan reoliad 8(4)(a) o Reoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 i fynd ymlaen yn absenoldeb y Cynghorydd Jones.

Ystyriodd y Pwyllgor Safonau adroddiad blaen y Swyddog Monitro, adroddiad ysgrifenedig ymchwiliad yr Ombwdsmon a chyflwyniadau llafar gan Mr Eirwyn Pritchard, Swyddog Ymchwilio.

Yna, ymneilltuodd y Pwyllgor i ystyried ei benderfyniad.

Ar ôl dod i benderfyniad, fe wnaeth y Pwyllgor ailymgynnull a chyhoeddodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor Safonau wedi penderfynu bod y Cynghorydd Aeron Maldwyn Jones wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymarfer fel a ganlyn:-

(1) Canfu'r Pwyllgor fod ymddygiad y Cynghorydd Jones yn torri paragraff 7(a) y Cod Ymddygiad.

'Roedd y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor fel a ganlyn.

Canfu'r Pwyllgor fod y sylwadau a wnaeth y Cynghorydd Jones ar ei flog fod yr achwynydd yn bwriadu ymddeol yn fuan ac y byddai wedyn yn sefyll am sedd cynghorydd arall ar y Cyngor gyda'r potensial i greu anfantais ddifrifol i'r achwynydd. Yn niffyg unrhyw eglurhad gan y Cynghorydd Jones ynglŷn â'i resymau dros bostio'r blog derbyniodd y Pwyllgor dystiolaeth yr achwynydd i'r Ombwdsmon fod yr honiadau yn anwir. Daeth i'r casgliad y gallasai'r honiadau di-sail yma greu trafferthion sylweddol i'r achwynydd oedd yn dal swydd gyhoeddus. 'Roedd y Pwyllgor o'r farn y gallasai honiad anwir o ymddeoliad buan greu trafferthion difrifol i'r achwynydd yng nghyd-destun ei gyflogaeth fel pennaeth ysgol.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth pa un ai oedd y sylwadau yn disgyn oddi fewn i'r diffiniad o "sylw gwleidyddol" o fewn ystyr Calver, R v The Adjudication Panel for Wales ac a oeddent wedi eu gwarchod gan yr hawl i ryddid mynegiant. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad nad oedd y sylwadau yn denu unrhyw warchodaeth oherwydd eu bod yn rhai personol, nid gwleidyddol. Nododd y Pwyllgor fod yr honiadau'n cyfeirio at gynlluniau personol yr achwynydd, ac nad oeddynt yn wir.

Daeth y Pwyllgor hefyd i'r casgliad mai blog swyddogol y Cynghorydd Jones oedd y blog a bod y sylwadau a wnaeth ar y blog ynglŷn â'r achwynydd yn ymgais i ddefnyddio ei safle i greu anfantais i'r achwynydd.

(2) Canfuwyd bod ymddygiad y Cynghorydd Jones yn torri paragraff 6(1)(a) y Côd Ymddygiad.

'Roedd y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor fel a ganlyn.

Canfu'r Pwyllgor bod yr honiadau a wnaeth y Cynghorydd Jones ar ei flog yn anwir a heb sail. Daeth i'r casgliad y gellir yn rhesymol ystyried bod rhoi honiadau anwir ar flog yn ymddygiad sy'n dwyn anfri ar swydd cynghorydd. Nododd fod statws arbennig mewn cymdeithas i swydd cynghorydd ac y disgwylid safon uchel o ymddygiad gan y rhai sy'n ei dal.

(3) Canfuwyd bod ymddygiad y Cynghorydd Jones yn torri paragraff 4(b) y Côd Ymddygiad.

'Roedd y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor fel a ganlyn.

Canfu'r Pwyllgor fod y Cynghorydd Jones wedi methu dangos parch ac ystyriaeth at yr achwynydd ac at y Pwyllgor a'r broses foesegol. Canfu fod y Cynghorydd Jones wedi methu dangos parch ac ystyriaeth i'r achwynydd trwy wneud honiadau di-sail a rhyfygus ynglŷn â'i fywyd a chynlluniau personol ac yna cyhoeddi'r honiadau rheini. Nododd y Pwyllgor fod yr honiadau yn dal ar dudalen blog y Cynghorydd Jones ar ddyddiad y gwrandawiad.

Canfu'r Pwyllgor hefyd fod y Cynghorydd Jones wedi diystyru'r gyfundrefn safonau ac yn arbennig yr Ombwdsmon a'i ymchwilydd a'r Pwyllgor trwy fethu ag ymateb o gwbl i unrhyw rai o'r ymholiadau a wnaed ohono yn ystod yr ymchwiliad, methu â darparu unrhyw eglurhad dros ei ymddygiad, methu ag ymddangos gerbron y Pwyllgor na darparu unrhyw gynrychioliadau. Canfu'r Pwyllgor fod y Cynghorydd Jones wedi methu pum cyfle i gyd i egluro ei sefyllfa wrth yr Ombwdsmon, sef dau lythyr gyda holiaduron ynddynt dyddiedig 13 Hydref 2011 a 28 Tachwedd 2011 (yr un olaf wedi ei anfon trwy bost cofnodedig a'i ddychwelyd gan y swyddfa bost heb ei gasglu), e-bost a anfonwyd ar 12 Ionawr 2012 eto gyda holiadur, cais i roi sylwadau ar yr adroddiad drafft a chyfle i ymateb i'r adroddiad terfynol. Canfu'r Pwyllgor ymhellach fod y Cynghorydd Jones wedi methu ag ymateb i gais gan y Swyddog Monitro ar 19 Gorffennaf 2012 i gwblhau holiadur cyn-wrandawiad fel rhan o drefniadau'r Pwyllgor. Yn olaf, roedd yn anfodlon gyda'r rheswm a roddwyd gan y Cynghorydd Jones am fethu ag ymddangos gerbron y Pwyllgor.

Gadawyd y Pwyllgor gyda'r argraff fod y Cynghorydd Jones yn cymryd y gweithgareddau'n ysgafn a thrwy hynny'n methu â dangos parch ac ystyriaeth briodol i'r Pwyllgor, ei aelodau, yr Ombwdsmon a'i swyddogion.

(4) Canfuwyd bod ymddygiad y Cynghorydd Jones yn torri paragraff 6(2) y Côd Ymddygiad.

'Roedd y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor fel a ganlyn.

Canfu'r Pwyllgor fod y Cynghorydd Jones wedi anwybyddu ceisiadau gan yr Ombwdsmon i ymateb i gwestiynau ffurfiol a roddwyd yn ystod ymchwiliad yr Ombwdsmon. Yn niffyg unrhyw dystiolaeth i'r gwrthwyneb, canfu fod gweithrediad y Cynghorydd Jones o fethu casglu'r post oedd wedi ei anfon trwy bost cofnodedig yn fwriadol. Canfu'r Pwyllgor hefyd fod y Cynghorydd Jones wedi methu ag ymateb i gais gan y Swyddog Monitro i gwblhau holiadur cyn-

wrandawiad, y cyfryw gais wedi ei wneud at ddiben hwyluso trefniadau'r Pwyllgor.

Canfu'r Pwyllgor fod gweithrediadau'r Cynghorydd Jones yn fethiant i gydymffurfio a cheisiadau a wnaed ohono gan yr Ombwdsmon a'r Swyddog Monitro mewn cyswllt â'r ymchwiliad a'u bod yn torri'r Côd Ymddygiad.

Yna, ymneilltuodd y Pwyllgor i ystyried pa gamau i'r cymryd.

Ar ôl dod i benderfyniad, fe wnaeth y Pwyllgor ailymgynnull a chyhoeddodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor Safonau wedi penderfynu y dylid gwahardd y Cynghorydd Aeron Maldwyn Jones rhag bod yn aelod o Gyngor Gwynedd am gyfnod o dri mis. Byddai cyfnod y gwaharddiad yn cychwyn ar y diwrnod ar ôl i'r amser a ganiateir i gyflwyno rhybudd apêl ddod i ben, fel y nodir isod.

'Roedd y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor fel a ganlyn.

(1) Dyma'r ail achlysur i'r Cynghorydd Jones gael ei gyfeirio i'r Pwyllgor, am doriad tebyg o'r Cod Ymddygiad. Ar yr achlysur cyntaf (30 Medi 2011), oedd hefyd yn ymwneud â rhoi honiadau anwir ar flog, penderfynodd y Pwyllgor y dylid atal y Cynghorydd Jones am fis.

(2) 'Roedd y toriad presennol o'r Cod Ymddygiad wedi digwydd ar 6 Gorffennaf 2011, ar ôl i'r Ombwdsmon gyhoeddi ei adroddiad terfynol mewn perthynas â'r toriad cyntaf, er cyn i'r Pwyllgor benderfynu ar y mater a chyhoeddi cosb.

(3) Er gwaethaf y darganfyddiad blaenorol nid oedd y Cynghorydd Jones wedi talu fawr o sylw i'r gyfundrefn safonau, gofynion y Cod Ymddygiad na rôl y Pwyllgor.

(4) Canfu'r Pwyllgor ar yr achlysur hwn y bu pedwar toriad o'r Cod Ymddygiad.

(5) Man cychwyn y Pwyllgor oedd gwaharddiad am fis. Fodd bynnag, canfu fod yr uchod yn nodweddion gwaethygol ac felly roedd yn ystyried fod gwaharddiad o dri mis yn briodol.

Yn ogystal, penderfynodd y Pwyllgor:

(1) Y dylai'r Cynghorydd Jones ddileu'r dudalen berthnasol o'r blog ar unwaith;

(2) Y dylai'r Cynghorydd Jones ymddiheuro i'r achwynydd; ac

(3) Y dylai'r Cynghorydd Jones ymgyfarwyddo'i hun yn llawn â'r Cod Ymddygiad.

Cyhoeddodd y Cadeirydd:-

(1) Y gallai'r Cynghorydd Aeron Maldwyn Jones apelio yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor Safonau i dribiwnlys apeliadau a dynnwyd o Banel Dyfarnu Cymru. Byddai'n rhaid cyflwyno apêl drwy anfon rhybudd ysgrifenedig at Lywydd y Panel Dyfarnu o fewn 21 diwrnod o dderbyn y rhybudd o benderfyniad y Pwyllgor. Byddai'n rhaid i'r rhybudd apêl nodi'r rhesymau dros apelio a hefyd p'un a yw'r aelod yn cydsynio i'r apêl gael ei gynnal drwy sylwadau ysgrifenedig.

(2) Y cyhoeddir adroddiad ar ddeilliant yr ymchwiliad yn unol â Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001.

(3) Yr hysbysir y Cynghorydd Aeron Maldwyn Jones, yr achwynydd ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn briodol.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 11.40am.

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **27 Tachwedd 2012** |
| **Teitl :** | **Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Gweithredu :** | **Er gwybodaeth** |

**Cefndir**

1. Sefydlwyd Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru yn 2011, a gwahoddwyd Cadeirydd ac Is-gadeirydd pob pwyllgor ynghyd a swyddogion monitro i fynychu'r cyfarfodydd.

2. Atodir cofnodion o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 23 Ebrill a 17 Gorffennaf 2012. Nid yw cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Hydref 2012 wedi eu derbyn eto.

**Argymhelliad**

3. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **DYDDIAD** | **27, TACHWEDD, 2012** |
| **TEITL** | **CYNHADLEDD SAFONAU 2013** |
| **PWRPAS** | **RHOI GWYBODAETH A DERBYN ADBORTH YNGLŶN Â'R GYNHADLEDD.** |
| **AWDUR** | **DILYS PHILLIPS, SWYDDOG MONITRO** |

1. Gwnaed penderfyniad yn Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru i gymryd y cyfrifoldeb am drefnu Cynhadledd Safonau 2013. Mae'r pwnc hefyd wedi ei drafod ymysg swyddogion monitro yr awdurdodau gyda chytundeb y byddwn yn cymryd cyfrifoldeb am y trefniadau ar y cyd.

2. Bu i Bwyllgor Safonau Gwynedd drafod yr egwyddor o drefnu'r gynhadledd yn y Gogledd yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2012 gan roi cefnogaeth gyffredinol i'r syniad. Gyda'r bwriad i gynnal y gynhadledd fis Ebrill nesaf, cwta bum mis sydd ar ôl ar gyfer trefnu bellach.

3. Mae'r swyddogion monitro wedi cytuno rhaglen ddrafft ac fe'i hatodir i'r adroddiad hwn. Rhaid pwysleisio mai drafft yw ar hyn o bryd ac nid oes unrhyw drefniadau terfynol wedi eu gwneud. Serch hynny mae yn rhoi amlinelliad o'r hyn sydd dan drafodaeth ac y bwriedir ei gynnal.

4. Gofynnir i'r pwyllgor am eu barn ar y rhaglen ddrafft ac am unrhyw awgrymiadau neu sylwadau eraill a fydd o fudd i gynnal digwyddiad llwyddiannus.

**ATODIAD 1.**

# DRAFFT

**CYNHADLEDD SAFONAU 2013**

Dyddiad: Dydd Gwener, 19 Ebill 2013

Amser: 10.00 – 4.00

Lleoliad: Venue, Llandudno

Thema: Cydbwyso Hawliau a Chyfrifoldebau

Cost: c. £75 - £80?

Rhaglen: Anerchiad gan yr Ombwdsmon, sesiwn lawn rhyngweithiol, dau weithdy (dim trafodaeth panel).

| | | |
|---|---|---|
| Amseroedd posibl | 10.00 - 10.30 | Cofrestru |
| | 10.30 – 10.45 | Croeso a chyflwyniad. |
| | 10.45 – 11.30 | Anerchiad |
| | 11.30 – 11.45 | Te / Coffi |
| | 11.45 – 12.45 | Gweithdy 1 |
| | 12.45 – 13.45 | Cinio |
| | 13.45 - 14.30 | Sesiwn lawn |
| | 14.30 – 14.45 | Te / Coffi |
| | 14.45 – 15.45 | Gweithdy 2 |
| | 15.45 – 16.00 | Diweddu/sylwadau |

Testunau posib ar gyfer y gweithdai:

Sut i hyrwyddo safonau rhagweithiol
Gweithdrefnau datrys anghydfod lleol
Perthynas cynghorau tref a chymuned
Cyfryngdod
Cynnal gwrandawiadau a chosbau.
Goddefebau
Cofrestru buddiannau
Awdurdodau un pwrpas.

Gall un o'r penawdau (e.e. gwaith rhagweithiol y pwyllgorau safonau, neu gweithdrefnau datrys anghydfod lleol) fod yn destun i sesiwn lawn, efallai gyda 3 o bwyllgorau yn rhoi eu profiadau).

Eraill a all gyfrannu (efallai drwy arwain gweithdy?)

Llywydd y Panel Dyfarnu
Un Llais Cymru
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **DYDDIAD** | **27, TACHWEDD, 2012** |
| **TEITL** | **CANLLAWIAU'R OMBWDSMON** |
| **PWRPAS** | **CYFLWYNO DIWEDDARIAD AM DDATBLYGIADAU.** |
| **AWDUR** | **DILYS PHILLIPS, SWYDDOG MONITRO** |

1. Ar 17, Medi anfonodd yr Ombwdsmon lythyr at Brif Weithredwr pob Cyngor yn dilyn penderfyniad yn yr Uchel Lys ar achos <u>Calver – v – The Adjudication Panel for Wales</u>. Atodaf gopi o'r llythyr i'r adroddiad. Dylid nodi mai yn uniaith Saesneg yr anfonwyd y llythyr.

2. Anfonwyd copi o'r llythyr hefyd at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

3. Byrdwn y llythyr ydi y bydd yr Ombwdsmon yn cymryd agwedd fwy haearnaidd wrth benderfynu a yw am ymchwilio os yw'n ymddangos fod y gŵyn yn ymwneud â'r hyn y gellir ei alw yn fynegiant o farn wleidyddol. I bob pwrpas mae'n codi y trothwy ar gyfer cychwyn ymchwiliad.

4. Mae'r Ombwdsmon wedi dod i'r penderfyniad hwn o ganlyniad i achos Calver. Yn yr achos hwnnw gwnaed cwyn fod aelod o gyngor cymuned wedi gwneud sylwadau maleisus am ei gyd-gynghorwyr ar wefan gymdeithasol. Aeth y mater gerbron Pwyllgor Safonau ac fe roddwyd cerydd iddo. Fe apeliodd i Banel Dyfarnu Cymru a wnaeth gytuno fod y cynghorydd wedi torri'r Côd Ymddygiad a bod y cerydd yn gosb briodol. Apeliodd y cynghorydd ymhellach i'r Uchel Lys ar y sail fod penderfyniad y Pwyllgor Safonau a'r Panel Dyfarnu yn amharu ar ei hawl i ryddid mynegiant (freedom of expression) ac fe enillodd ei achos.

5. Mae dyfarniad yr Uchel Lys yn egluro bod rhaid i ofynion y Côd Ymddygiad o ddangos parch at eraill, gael ei ystyried yng nghyd-destun yr hawl dynol i ryddid mynegiant a bod rhaid dehongli'r côd yn gyson a'r hawliau hyn. O ystyried cynnwys y sylwadau a wnaeth y cynghorydd, y traddodiad o gael dadl gadarn rhwng gwleidyddion, bod disgwyl i'r rhai sy'n cynnig eu hunain am swydd gyhoeddus dderbyn rhyw gymaint o ddychanu a bod disgwyl i wleidyddion gael croen mwy trwchus na'r rhelyw, 'roedd y llys o'r farn fod y penderfyniad fod y cynghorydd wedi torri'r côd yn yr achos hwn yn anghymesur â'i hawliau i ryddid mynegiant. Nododd y llys nad oedd rhaid i sylwadau fod yn mynegi barn wleidyddol cyn belled â'u bod wedi eu gwneud yn y maes gwleidyddol.

6. Achosodd llythyr yr Ombwdsmon rhywfaint o gynnwrf ymysg aelodau a swyddogion monitro oherwydd fod rhai yn credu ei fod yn gosod y trothwy yn rhy uchel mewn perthynas â'r achos. Cafwyd trafodaethau rhyngddo a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol a hefyd bu'n trafod y llythyr mewn cyfarfod

hefo Swyddogion Monitro Cymru. Cytunodd y byddai'n fodlon ail-edrych ar eiriad ei ganllawiau yng ngoleuni profiad a phe byddai cynigion eraill yn dod ymlaen.

7. Yng Ngwynedd adroddwyd ar y llythyr i gyfarfod o Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol ar y 25, Medi ac fe'u hatgoffais fod Safon Gwynedd yn ymdrin â materion na fyddent o reidrwydd yn cael eu hymchwilio iddynt gan yr Ombwdsmon. Cytunodd yr Arweinyddion Gwleidyddol y dylid dosbarthu copi o Safon Gwynedd i'r holl aelodau unwaith yn rhagor, a gofynnir i'r pwyllgor am ei gefnogaeth i hyn.

8. Tua yr un adeg ag yr oedd yn anfon ei lythyr, cyhoeddodd yr Ombwdsmon ddiwygiadau i'w ganllawiau ar y Côd Ymddygiad. Mae'r diwygiadau yn cynnwys diwygiad oherwydd achos Calver, ond mae hefyd yn ymdrin â materion oedd wedi bod yn destun trafodaeth cyn i'r achos hwnnw gael ei glywed.

9. Un cam mae'r Ombwdsmon wedi ei gymryd ydi i wahanu y canllawiau ar gyfer aelodau cynghorau cymuned oddi wrth y canllawiau ar gyfer aelodau'r Cyngor Sir. Bellach mae'r ddau set o ganllawiau ar wahân gyda'r rhai cynghorau tref a chymuned wedi eu teilwrio ar gyfer yr haen honno o gyngor.

Y diwygiadau eraill sydd wedi eu gwneud i'r canllawiau yw'r canlynol :-

**Proses Datrys yn Lleol** – Mae'r Ombwdsman yn egluro ei ddisgwyliad i awdurdodau ledled Cymru weithredu gweithdrefn i ddatrys cwynion gan aelod yn erbyn aelod arall yn lleol.

**Defnyddio Chwip mewn Pwyllgorau Craffu** – Mae Adran 78 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gwahardd aelod o bwyllgor craffu rhag pleidleisio mewn cyfarfod o'r pwyllgor os oedd chwip plaid wedi ei defnyddio yng nghyswllt y mater cyn y cyfarfod. Mae'r Ombwdsmon yn nodi pa dystiolaeth fydd ei angen er mwyn ymchwilio i gwynion o weithredu'n groes i'r cymal hwn.

**Buddiant Mewn Materion Ward** - Mae paragraff 10(2)(b) o'r Côd Ymddygiad yn dweud petai yn rhesymol i aelod o'r cyhoedd gasglu fod materion ward yn dylanwadu mwy ar aelod wrth wneud penderfyniad ar ran yr awdurdod nag yw buddiannau'r awdurdod yn ei gyfanrwydd, fod hynny yn fuddiant personol fydd angen ei ddatgelu. Mae'r Ombwdsmon yn cynnig arweiniad sut y bydd yn dehongli'r paragraff hwn gan nodi na fydd yn mabwysiadu dehongliad llythrennol fel mater o drefn, ond y bydd yn seilio ei benderfyniad i gychwyn ymchwiliad ar y dybiaeth fod y paragraff wedi ei anelu at aelodau unigol yn ymarfer swyddogaethau gweithredol megis mewn pwyllgorau cynllunio neu drwyddedu. Tra'n croesawu'r ffaith nad yw'r Ombwdsmon yn cymryd dehongliad llythrennol mae angen rhagor o eglurder yn y canllawiau gan nad yw penderfyniadau cynllunio neu drwyddedu yn "swyddogaethau gweithredol".

**Trin Pobl â Pharch -** Yn dilyn penderfyniad yn achos Calver a drafodir uchod mae y canllawiau bellach yn nodi ei fod yn annhebyg y bydd yr Ombwdsmon yn ymchwilio i gwynion a wneir yn gyffredinol ynglŷn â pholisïau neu ynglŷn â gwrthwynebwyr gwleidyddol gan fod angen i gynghorwyr fod yn fwy croendew wrth ddelio â sylwadau sydd â chymhelliant gwleidyddol iddynt. Mae hefyd yn nodi y dylid disgwyl cael trafodaethau cadarn ac agored gydag uwch swyddogion ar faterion gwleidyddol.

10. Gofynnir i'r pwyllgor :

(a) Nodi a derbyn yr adroddiad.
(b) Gefnogi'r bwriad i anfon copi o Safon Gwynedd i holl aelodau'r Cyngor Sir.
(c) Ystyried pa gamau y dylid eu cymryd i ddod a'r canllawiau i sylw aelodau sir a chymuned.

***Nodyn*** – Gellir gweld copi llawn o ganllawiau'r Ombwdsmon ar y wefan www.ombudsman-wales.org.uk/cy/cyhoeddiadau.aspx

Ombudsman
Ombwdsmon
PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Our ref: PT/KS/mm

Your ref:

Date: 17 September 2012

Ask for: Katrin Shaw

01656 641182

Katrin.shaw@ombudsman-wales.org.uk

Mr Harry Thomas
Chief Executive
Gwynedd Council
Council Offices
Shirehall St
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

COPY

Dear Mr Thomas

I thought it would be helpful to contact you in the light of a recent decision of the High Court concerning the Code of Conduct for members.[10]

As you may be aware a member challenged the findings of the Adjudication Panel for Wales to uphold his Council's Standards Committee's decision to censure him for breaching paragraph 4(b) of the code of conduct by failing to show respect and consideration to his fellow Councillors. The court found that whilst the comments which were posted on a website operated by the member were sarcastic and mocking and the tone ridiculed his fellow Councillors, because the majority of the comments related to the way in which the Council was run and the competence of the Councillors, the comments were "political expression". The ruling found that the Panel took an over-narrow view of what amounts to political expression and no account had been taken of the need for politicians to have "thicker skins". In view of the member's entitlement to freedom of expression, and the fact that the majority of comments were directed at fellow Councillors, the finding of a breach of the Code in this case was a disproportionate interference with the member's rights under Article 10 of the European Convention on Human Rights. The Standards Committee's decision to censure the member was therefore set aside.

The impact of this ruling is that my staff will have to apply a higher threshold when deciding whether to investigate any conduct complained about which may be regarded as being "political expression". I will not therefore investigate such cases where 'political' criticisms are made, regardless of the tone of the exchange.

---

[10] Calver, R (On the Application Of) v The Adjudication Panel for Wales (Rev 1) [2012] EWHC 1172 (Admin) (03 May 2012).

Public Services Ombudsman for Wales | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ
01656 641150 01656 641199 ask@ombudsman-wales.org.uk www.ombudsman-wales.org.uk

Allegations of disrespectful behaviour towards officers, particularly those who may hold senior positions, must also be considered in the light of this ruling.

I have today issued my revised Guidance on the Code of Conduct which includes the impact of this ruling and other amendments. It is available on my website www.ombudsman-wales.org.uk .

I would be grateful if you would bring this issue to the attention of your members so as to avoid complaints being made which stand no prospect of being investigated in the light of this ruling.

Yours sincerely

Peter Tyndall
Ombudsman

Copy: Monitoring Officer

CYNGOR GWYNEDD
DEMOCRATIAETH A
CHYFREITHIOL

18 MEDI 2012

P | rhif tracio......................

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **27 Tachwedd 2012** |
| **Teitl :** | **Honiadau yn erbyn aelodau** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Gweithredu :** | **Er gwybodaeth** |

**1. Cefndir**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw hysbysu aelodau'r Pwyllgor o'r datblygiadau, ers fy adroddiad diwethaf, o safbwynt honiadau yn erbyn aelodau. Seilir yr adroddiad ar y wybodaeth a dderbyniwyd wrth yr Ombwdsmon.

**2. Penderfyniadau**

**Achos 201100673**

Cwyn o ddwyn anfri ar ei swydd neu ar yr awdurdod drwy arddangos lluniau amhriodol ar ei dudalen Facebook.

<u>Penderfyniad</u> - peidio parhau gyda'i ymchwiliad. Mae'r cwestiwn ynglŷn ag amhriodoldeb delweddau yn un goddrychol. Nid oedd unrhyw awgrym bod y delweddau yn anghyfreithlon. Roedd y weithred yn disgyn o fewn bywyd personol yr aelod ac nid oedd yn amharu ar ei swydd fel Cynghorydd. Roedd rhaid hefyd ystyried barn gyfreithiol oedd yn awgrymu na ddylai hawl yr aelod, dan erthygl 10 Deddf Hawliau Dynol 1998, i fynegi ei hun gael ei dramgwyddo gan y ffaith ei fod yn gynghorydd.

**Achos 3329/201102729**

Cwyn gan gyd-aelod Cyngor Cymuned fod:

- Y Cynghorydd heb ddatgan buddiant pan drafodwyd ei Gais Cynllunio.
- Y Cynghorydd heb adael yr ystafell er i aelodau eraill nodi fod ganddo fuddiant a gofyn iddo adael.
- Gofyn i'r clerc am wybodaeth yn ymwneud â'r cais cynllunio.

<u>Penderfyniad</u> - bod yr aelod wedi torri'r cod ymddygiad drwy fethu datgan buddiant ond nad oedd angen cymryd unrhyw gamau pellach. Nid oedd yr Ombwdsmon yn credu y byddai'r Pwyllgor Safonau yn rhoi unrhyw gosb yn yr achos petai'r mater yn cael ei gyfeirio ato. Y rheswm am hyn oedd bod y cais cynllunio eisoes wedi ei ystyried a'i benderfynu gan yr awdurdod cynllunio lleol felly nid oedd angen i'r cyngor cymuned benderfynu ar y mater. Hefyd, er i'r cynghorydd godi'r mater ni fu fawr o drafod ar y mater.

**Achos 201103099**

Cwyn yn erbyn cynghorydd tref gan gyd-aelod am ymddygiad annerbyniol tuag ato mewn cyfarfod caeedig o'r cyngor. Roedd wedi ymddwyn mewn ffordd fygythiol a gwaedu arno yn uchel iawn mewn modd a daflodd boer i'w wyneb, ac wedi taro ei law mewn modd oedd yn ymosodiad.

Penderfyniad - Dim tystiolaeth o dorri'r cod. Nid oedd yr Ombwdsmon o'r farn bod y dystiolaeth a gasglwyd yn ddigon cryf i gefnogi'r honiad. Roedd yr aelod wedi ymddiheuro ond roedd yn gwadu iddo gyffwrdd a'r achwynydd. Cefnogwyd hyn gan rai tystion er bod tyst arall wedi cefnogi fersiwn yr achwynydd. Roedd yn amlwg y bu dadlau ffyrnig rhwng y ddau aelod a oedd, ym marn y rhai oedd yn bresennol, wedi cyrraedd lefel annerbyniol. Serch hynny roedd trafodaeth o'r fath yn aml yn medru troi'n ddadl ffyrnig ond nid oedd yr Ombwdsmon o'r farn fod yr ymddygiad yn ddigon difrifol i dorri'r cod yn yr achos hwn.

**Achos 3580/201200240**

Cwyn yn erbyn cynghorydd sir gan gyd-aelod ei fod wedi anfon e-bost at bapur newydd yn gwneud honiadau anghywir am un o bolisïau grŵp gwleidyddol yr achwynydd.

Penderfyniad - peidio ag ymchwilio i'r honiad gan nad oedd yr ymddygiad yn fater o dorri'r cod ymddygiad. Roedd y sylwadau yn fater o roi barn ar bolisi'r grŵp gwleidyddol yn hytrach nag ymosodiad personol ar yr aelod ei hun. Roedd y sylwadau hefyd yn ymddangos i fod yn ymateb i sylwadau cynharach a wnaed gan yr achwynydd mewn erthyglau blaenorol.

**Achos 3580/201200240**

Cwyn gan aelod o'r cyhoedd fod aelod o'r cyngor sir wedi ymosod yn eiriol arno ac wedi ceisio ei fychanu mewn tafarndai lleol. Roedd yr aelod y cyfaddef iddo siarad â'r achwynydd mewn tafarn unwaith ynglŷn â'r effaith roedd y ffordd yr oedd yn cadw ei gŵn yn ei gael ar gymdogion. Roedd yn gwadu ymosod yn eiriol arno ond yn cydnabod na ddylai wedi codi'r mater mewn tafarn ac ymddiheurodd wrth yr achwynydd y diwrnod canlynol. Ers hynny roedd wedi cyfeirio'r mater at yr adran briodol o'r cyngor sir.

Penderfyniad - tra gallai ymddygiad yr aelod dorri'r cod, nid oedd yr Ombwdsmon o'r farn y byddai pwyllgor safonau yn rhoi cosb yn yr amgylchiadau.

**Cwynion 3329/201201318 & 3329/1201319**

Cwynion yn erbyn dau gynghorydd o'r un cyngor cymuned gan gyd-gynghorydd nad oeddynt wedi datgelu eu cysylltiad agos gydag ymgeisydd am ganiatâd cynllunio.

Penderfyniad - peidio ymchwilio.  Ni chyflwynwyd tystiolaeth oedd yn dangos cysylltiad agos gyda'r ymgeisydd nag ychwaith bod yr aelodau wedi cymryd rhan mewn unrhyw drafodaeth neu benderfyniad ar y cais.

**3. Achos fu gerbron y Pwyllgor Safonau**

Cynhaliodd y Pwyllgor wrandawiad mewn cysylltiad â'r gwyn yn erbyn y Cyng. A.M. Jones, Cyngor Gwynedd ar 26 Medi 2012.  Penderfynodd y Pwyllgor:

- Y dylai gael ei wahardd am dri mis
- Y dylai'r Cynghorydd Jones ddileu'r dudalen berthnasol o'r blog ar unwaith;
- Y dylai'r Cynghorydd Jones ymddiheuro i'r achwynydd; ac
- Y dylai'r Cynghorydd Jones ymgyfarwyddo'i hun yn llawn â'r Côd Ymddygiad

**4.  Argymhelliad**

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **DYDDIAD** | **27, TACHWEDD, 2012** |
| **TEITL** | **RHAGLEN WAITH** |
| **PWRPAS** | **CYFLWYNO RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR AM Y FLWYDDYN I DDOD ER CYMERADWYAETH.** |
| **AWDUR** | **DILYS PHILLIPS, SWYDDOG MONITRO** |

1. Yn ei gyfarfod diwethaf ar yr 2il o Orffennaf cafodd y Pwyllgor gyflwyniad i'w gylch-gorchwyl a'i waith a chytunodd y dylid llunio rhaglen waith yn seiliedig ar y materion yr hoffai yr aelodau edrych arnynt dros y blynyddoedd nesaf. Atodaf gopi o'r cylch gorchwyl er hwylustod.

2. Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod yn arferol bedair gwaith y flwyddyn yn Ionawr, Ebrill, Gorffennaf a Thachwedd, gyda'r posibilrwydd o gyfarfodydd arbennig i ystyried ceisiadau penodol lle bo angen.

3. Gellir rhannu'r pynciau mae'r Pwyllgor yn ymdrin â hwy i dri categori, sef :

   (a) Ymateb i geisiadau penodol naill ai am oddefebau neu wrandawiadau.
   (b) Materion y mae'r Pwyllgor yn rhoi sylw iddynt yn gylchol megis adroddiadau ar gwynion, adroddiad blynyddol, hyfforddiant.
   (c) Materion "unwaith ac am byth" sydd angen rhoi sylw iddynt fel rhan o waith rhagweithiol y Pwyllgor o hybu safonau.

4. Nodir isod ddyddiadau'r cyfarfodydd am weddill y flwyddyn Gyngor ynghyd â'r materion cylchol y gellir eu rhaglennu.

   **28, Ionawr, 2013**:
   - Adroddiad ar honiadau yn erbyn aelodau.
   - Cofnodion Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Gogledd Cymru
   - Adroddiad ar hyfforddiant.

   **8, Ebrill, 2013:**
   - Cofnodion Fforwm Cadeiryddion.
   - Adroddiad ar honiadau yn erbyn aelodau.
   - Rhaglen waith y flwyddyn i ddod.
   - Adroddiad blynyddol drafft y Pwyllgor Safonau.

   **, Gorffennaf, 2013 (dyddiad i'w bennu).**
   - Cofnodion Fforwm Cadeiryddion
   - Adroddiad ar honiadau yn erbyn aelodau.
   - Adroddiad blynyddol yr Ombwdsmon
   - Adborth o'r Gynhadledd Safonau.

5. Rhestrir isod awgrymiadau ynglŷn â phynciau y gall y Pwyllgor roi sylw iddynt er mwyn gweithredu yn rhagweithiol i hybu safonau o fewn y Cyngor Sir â'r cynghorau tref a chymuned.

- Ystyried deddfwriaeth ar Hybu Democratiaeth Leol
- Dadansoddiad manwl o achosion gerbron Panel Dyfarnu Cymru.
- Cyfarfod hefo arweinyddion y grwpiau gwleidyddol.
- Ymweliadau arsylwi i gyfarfodydd pwyllgor/Cyngor.
- Adolygiad o'r drefn cofrestru buddiannau.
- Hyfforddiant (i gynghorwyr sir, cynghorwyr cymuned, aelodau'r Pwyllgor, aelodau cyfetholedig a swyddogion).
- Adolygiad o'r Drefn Datrys Anghydfod a "Safon Gwynedd" (adolygwyd ddiwethaf Hydref 2010).
- Adolygiad o'r Protocol Cyswllt Aelod-Swyddog (adolygwyd ddiwethaf Gorffennaf 2009).
- Adolygiad o'r Côd Ymarfer ar Hawliau aelodau i Wybodaeth (adolygwyd ddiwethaf Hydref 2004).
- Adolygiad o'r Protocol Cynllunio (adolygwyd ddiwethaf Gorffennaf 2010).
- Cysylltiadau hefo cynghorau tref a chymuned.
- Adolygu'r drefn a'r canllawiau ar gyfer goddefebau.

6. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried pa bynciau y dylid eu cynnwys yn ei raglen waith ar gyfer y flwyddyn i ddod ynghyd ag awgrymiadau ar gyfer rhaglen waith y blynyddoedd dilynol.

**9.03 Rôl a swyddogaeth**

Bydd gan y Pwyllgor Safonau y rolau a'r swyddogaethau canlynol:

(a) hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan gynghorwyr, aelodau cyfetholedig a chynrychiolwyr eglwysig a rhieni-lywodraethwyr;

(b) cynorthwyo'r cynghorwyr, aelodau cyfetholedig a chynrychiolwyr eglwysig a rhieni-lywodraethwyr i gadw Côd Ymddygiad yr Aelodau;

(c) cynghori'r Cyngor ynglŷn â mabwysiadu neu ddiwygio Côd Ymddygiad yr Aelodau;

(ch) monitro gweithredu Côd Ymddygiad yr Aelodau;

(d) cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi cynghorwyr, aelodau cyfetholedig a chynrychiolwyr eglwysig a rhieni lywodraethwyr ar faterion yn ymwneud â Chôd Ymddygiad yr Aelodau;

(dd) rhoi gollyngiadau i gynghorwyr, aelodau cyfetholedig a chynrychiolwyr eglwysig a rhieni lywodraethwyr o ofynion yn ymwneud â buddiannau a gyflwynwyd yng Nghôd Ymddygiad yr Aelodau;

(e) ymdrin ag unrhyw adroddiadau o dribiwnlys achos neu dribiwnlys achos dros dro, ac unrhyw adroddiad oddi wrth y swyddog monitro ar unrhyw fater a gyfeiriwyd at y swyddog hwnnw gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru;

(f) awdurdodi'r Swyddog Monitro i dalu lwfansau a threuliau i bersonau a'i gynorthwyodd gyda ymchwiliad;

(ff) ymarfer (a) i (f) uchod mewn perthynas â'r cynghorau cymuned sy'n gyfangwbl neu gan fwyaf yn ei ardal ac aelodau'r cynghorau cymuned hynny.

| CYFARFOD | **PWYLLGOR SAFONAU** |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **27, TACHWEDD, 2012** |
| **TEITL** | **PROTOCOL RHODDION A LLETYGARWCH AELODAU** |
| **PWRPAS** | **ADOLYGU'R PROTOCOL** |
| **AWDUR** | **DILYS PHILLIPS, SWYDDOG MONITRO** |

1. Atodaf i'r adroddiad hwn gopi o'r Protocol Rhoddion a Lletygarwch ar gyfer aelodau'r Cyngor. Mabwysiadwyd y Protocol hwn gan y Cyngor ym Mehefin 2004. Mae'r Protocol yn ymdrech i gyflwyno arweiniad i aelodau ynglŷn â pha roddion a lletygarwch y gellir eu derbyn a pha rai y dylid eu cofrestru.

2. Mae'r Côd Ymddygiad i aelodau yn dweud ...."*Rhaid i chi o fewn 28 diwrnod ar ôl i chi gael cynnig unrhyw rodd, lletygarwch, buddiant materol neu fantais faterol, sy'n werth mwy na £25, ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer Swyddog Monitro eich awdurdod yn nodi bodolaeth a natur y rhodd honno, y lletygarwch hwnnw, y buddiant materol hwnnw neu'r fantais faterol honno. Rhaid i chi gofrestru cynnig o'r fath pe derbyniwch ef ai peidio.*"

3. Y Pwyllgor Safonau wnaeth argymell y trothwy o £25 pan gafodd y Côd ei fabwysiadu yn 2008 a'r Pwyllgor Safonau hefyd a gynigiodd y dylid cofrestru unrhyw gynnig sydd yn cael ei wrthod yn ogystal â'r rhai sydd yn cael eu derbyn.

4. Yn ei ganllawiau ar y Côd, mae'r Ombwdsmon yn cynnig yr arweiniad canlynol ar roddion a lletygarwch.

   (a) Y gall derbyn rhodd neu letygarwch greu buddiant personol i aelod y dylid wedyn ei ddatgan os oes pwyllgor yn ystyried mater sy'n effeithio ar yr unigolyn a roddodd y rhodd neu lletygarwch.

   (b) Y dylai'r aelod gwestiynu'r cymhelliant dros y rhodd neu'r lletygarwch er mwyn penderfynu os yw wedi ei gynnig iddo/i yn rhinwedd ei swydd fel cynghorydd.

   (c) Y dylid cofrestru unrhyw rodd neu letygarwch y mae yr aelod yn ansicr o'i werth neu sydd yn gyfres o roddion a fyddai gyda'i gilydd yn cyrraedd y trothwy o £25.

5. Mae'r paragraff yn y Côd Ymddygiad yn berthnasol i gynghorau tref a chymuned yn yr un modd ag i'r Cyngor Sir, ac mae canllawiau'r Ombwdsmon ar gyfer cynghorau tref a chymuned yn cynnwys yr un arweiniad. Nid yw'r protocol a fabwysiadwyd gan Gyngor Gwynedd yn 2008 wedi ei ddosbarthu i'r cynghorau tref a chymuned.

6. Gofynnir i aelodau'r Cyngor Sir gofrestru unrhyw gynnig o rodd neu letygarwch sy'n werth mwy na £25 drwy gwblhau ffurflen a'i hanfon i'r Swyddog Monitro. Atodaf gopi o'r ffurflen. Serch hyn byddaf yn derbyn rhai datganiadau o roddion a lletygarwch ar e-bost.

7. Atodaf i'r adroddiad grynodeb o'r holl gynigion sydd wedi eu cofrestru ers Mai 2008. Fe welir nad yw yn restr helaeth iawn. Mae'n werth nodi hefyd mai 10 aelod o'r Cyngor sydd wedi cofrestru rhoddion neu letygarwch.

8. Wrth fynd ati i adolygu'r Protocol Rhoddion a Lletygarwch, efallai y byddai o fudd i'r pwyllgor ystyried y materion canlynol :-

   (a) A ydi'r Protocol yn cynnig arweiniad ddigon eglur i aelodau ynglŷn â pha bryd y dylid derbyn neu wrthod cynigion? A oes modd cael canllawiau sydd yn ceisio rhestru enghreifftiau o sefyllfaoedd, ynteu a fyddai'n well gosod meini prawf neu gwestiynau y dylai pob cynghorydd eu gofyn cyn dod i benderfyniad ar rodd neu letygarwch?

   (b) A oes dryswch yn cael ei greu wrth osod trothwy ariannol ar gyfer cofrestru sydd ddim yn berthnasol i ba un a yw'r rhodd neu letygarwch yn cael ei dderbyn a'i peidio?

   (c) A yw'r trothwy o £25 yn parhau yn addas.

   (ch) Ar ba ffurf ddylai'r gofrestr gael ei chadw, a sut ddylai aelodau gofrestru rhoddion neu letygarwch?

   (d) A oes angen unrhyw newidiadau i'r ffurflen gofrestru?

   (dd) A ddylid newid y protocol i gyfeirio at ganllawiau yr Ombwdsmon?

   (e) Beth ddylid ei wneud mewn perthynas â chael cofrestr o roddion a lletygarwch i gynghorau tref a chymuned?

9. Wrth adolygu'r Protocol hwn, mae'n bosib y bydd y pwyllgor yn teimlo y dylai gomisiynu rhagor o waith ymchwil neu archwiliad er mwyn casglu tystiolaeth fwy manwl i'w gynorthwyo. Gofynnir felly am farn y pwyllgor a yw hwn yn faes y mae'n dymuno ei adolygu mewn dyfnder ac am ei sylwadau cychwynnol ar y Protocol.

## PROTOCOL RHODDION A LLETYGARWCH - AELODAU

### 1. Cyflwyniad

1.1 Dylech drin unrhyw gynnig o rodd neu letygarwch a wneir i chi'n bersonol gyda'r gofal mwyaf. Rydych yn gyfrifol am unrhyw benderfyniad i dderbyn rhodd neu letygarwch, a gall eich enw da ac enw da'r Cyngor gael ei beryglu wrth i chi dderbyn rhodd neu letygarwch amhriodol.

1.2 Nid yw'n bosib llunio rheolau pendant a fydd yn addas ar gyfer pob achlysur ond mae'r protocol yma yn cynnig canllawiau i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad.

### 2. Y Gyfraith

2.1 Mae derbyn llwgr wobr yn drosedd. Os profir eich bod wedi derbyn rhodd, benthyciad, ffi, gwobr neu fantais gan rywun sy'n ceisio contract gyda'r Cyngor byddai'n rhaid i chi (a'r sawl wnaeth y cynnig) brofi nad ydych wedi ymddwyn yn anonest.

### 3. Cofrestru

3.1 O dan Gôd Ymddygiad y Cyngor mae'n rhaid i chi gofrestru unrhyw rodd neu letygarwch a gewch sy'n werth dros £25. Hefyd dylech gofrestru unrhyw gynnig yr ydych yn ei wrthod ac sy'n werth dros £25.

3.2 Cedwir y gofrestr rhoddion a lletygarwch gan y Swyddog Monitro a dylid ei hysbysu'n ysgrifenedig o unrhyw rodd neu letygarwch a dderbynnir neu a wrthodir sy'n werth dros £25. Bydd y gofrestr ar gael i'r cyhoedd ei archwilio.

3.3 Rhaid cofio mai ffigwr ar gyfer cofrestru yw £25 ac nid yw'n golygu'n angenrheidiol y medrwch dderbyn unrhyw rodd neu letygarwch sy'n werth llai na hynny. Rhaid i chi ystyried yn ofalus bob cynnig beth bynnag fo'i werth.

### 4. Rhoddion

4.1 Mae "rhodd" yn cynnwys nwyddau a gwasanaethau am ddim, y siawns i brynu nwyddau/gwasanaethau gyda gostyngiad neu ar dermau nad ydynt ar gael i'r cyhoedd, neu siawns i brynu nwyddau/gwasanaethau nad ydynt ar gael i'r cyhoedd.

4.2 Cewch dderbyn rhoddion dinesig ar ran y Cyngor. Nid yw'r protocol hwn yn berthnasol i'r fath roddion ac nid oes rhaid eu cofrestru 'chwaith.

4.3 Ni ddylech dderbyn rhoddion personol, sy'n berthnasol i'ch safle fel aelod neu'n côdi ohono, gan unrhyw un. Serch hynny, mae'n iawn i chi gadw rhoddion bychan a dinod megis beiros, dyddiaduron a.y.b. Hefyd gallwch dderbyn gwobrau raffl.

4.4 Dylech wrthod unrhyw rodd a gynigir i chwi, neu i aelod o'ch teulu agos, gan unrhyw berson neu gorff sydd yn gwneud, neu sydd yn dymuno gwneud, busnes gyda'r Cyngor neu sy'n ceisio penderfyniad gan y Cyngor.

4.5 Wrth wrthod rhodd dylid dweud yn gwrtais ond yn gadarn wrth y cynigydd pa weithdrefnau a safonau sy'n weithredol o fewn y Cyngor. Os anfonir rhodd o'r fath :

- rhaid ei dychwelyd yn syth i'r anfonwr gydag eglurhad.
- dylid cofrestru derbyn a dychwelyd y rhodd os yw yn werth dros £25.
- lle bo cynigydd yn mynnu eich bod yn derbyn rhodd, rhaid i chi gysylltu â'r Swyddog Monitro am gyngor ynglŷn â'r modd i weithredu.

**5. Lletygarwch**

5.1 Ni ddylech dderbyn lletygarwch gan berson neu gorff sydd yn, neu'n sy'n dymuno, gwneud busnes gyda'r Cyngor, neu sy'n ceisio penderfyniad gan y Cyngor.

5.2 Ni ddylech dderbyn cynigion o letygarwch oni bai fod gwir angen i gyfrannu gwybodaeth neu gynrychioli'r Cyngor yn y gymuned.

5.3 Dylech osgoi lletygarwch mewn sefyllfaoedd lle mai chi fydd yr unig westai.

5.4 Ni ddylech dderbyn cynigion i fynychu achlysuron cymdeithasol neu chwaraeon oni bai eu bod yn rhan o fywyd y gymuned neu fod disgwyl i'r Cyngor gael ei gynrychioli yno.

5.6 Lle bydd angen ymweliadau fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau, dylech sicrhau bod y Cyngor yn ariannu'r ymweliadau hynny er mwyn diogelu tegwch y penderfyniadau sydd yn deillio ohonynt.

5.7 Bydd yn dderbyniol i chi dderbyn lletygarwch trwy fod yn bresennol mewn cynadleddau a chyrsiau perthnasol lle bydd yn amlwg mai corfforaethol ac nid personol yw'r lletygarwch, lle bydd y Cyngor yn rhoi caniatâd ymlaen llaw a lle sicrheir y Cyngor na chyfaddawdir unrhyw benderfyniadau gan y Cyngor.

5.8 Medrwch dderbyn lluniaeth arferol mewn cysylltiad â'ch gwaith fel aelod (te, coffi, bisgedi a.y.b).

**6. Swyddog Monitro**

6.1 Os oes gennych amheuaeth ynglŷn ag unrhyw gynnig, dylech ofyn am gyngor y Swyddog Monitro.

**Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch Aelodau 2008-2012**

| Dyddiad ar y ffurflen/ebost | Rhodd/Lletygarwch a ddatganwyd | Derbyniwyd/ Gwrthodwyd | Gwerth |
|---|---|---|---|
| 22/5/08 | Botel Champagne . Rhodd gan Mr Alun Gerrard a weithredodd fel eilydd ar gyfer papurau enwebu'r Cynghorydd | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 16/07/08 | Digwyddiadau dathlu 70 oed Hufenfa De Arfon. Gwahoddiad gan Hugenfa De Arfon | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 29/09/08 | Tocynnau Gŵyl y Faenol – Gwahoddiad gan Lywodraeth y Cynulliad. | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 05/11/08 | Plac Gwydr gan Faer Pentref Huchenfeld – gefeillio Llanbedr a Huchenfeld | Derbyniwyd | ? |
| 12/11/08 | Lluniaeth gan berchennog Plas Glynllifon (gwahoddiad gan Barc Glyniffon i'r Ŵyl Grefft ) | Derbyniwyd | Tua £5 |
| 12/11/08 | Lluniaeth gan berchennog Plas Glynllifon(gwahoddiad gan Barc Glyniffon i'r Ŵyl Grefft ) | Derbyniwyd | ? |
| 21/04/09 | Potel Whisgi fel gwerthfawrogiad gan etholwr | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 19/11/09 | Cinio efo Clwb Hwylio Meirionnydd – Gwahoddiad gan clwb Hwylio Meirionnydd i ddathlu pryniant y tir oddi wrth y Cyngor. | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 01/12/09 | Potel Win – gan etholwr fel gwerthfawrogiad | Derbyniwyd | ? |
| 12/1/10 | Cinio gyda Cymdeithas Tai Cartrefi Gwynedd – gwahoddiad gan Gartrefi Gwynedd | Derbyniwyd | Tua £25 |
| 20/2/10 | Noson Lansio "Snowdonia 1890" – gwahoddiad gan y BBC | Derbyniwyd | ? |
| 08/06/10 | Cinio ar wahoddiad Cwmni TRIBAL | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 08/06/10 | Cinio ar wahoddiad Bwrdd yr Iaith Gymraeg | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 08/06/10 | Cinio ar wahoddiad Bwrdd Ymddiriedolaeth Amgueddfa Cymru | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 08/06/10 | Noson Wobrywo Yr LGC – gwahoddiad Cwmni Procserve | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 08/06/10 | Cinio ar wahoddiad y Cwmni Iaith | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 08/06/10 | Cinio ar wahoddiad Solace 11/2/10 | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 08/06/10 | Cinio Welsh Politician of the Year- gwahoddiad y Welsh Year Book | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 08/06/10 | Cinio David Hawker | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 08/06/10 | Cinio Gala Gŵyl Geltaidd - Gwahoddiad Cwmni Barcud/Gŵyl Geltaidd | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 08/06/10 | Cinio ar wahoddiad Excellence Wales | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 08/06/10 | Cinio Bwrdd Gwasanaethau Lleol | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 08/06/10 | Cinio ar wahoddiad Solace/WLGA – 12/2/10 | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 08/06/10 | Cinio Bwrdd Partneriaeth y Gogledd | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 08/06/10 | Cyfarfod Ymestyn Llyfrgell Genedlaethol Cymru – gwahoddiad gan y Llyfrgell | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 13/01/11 | Cinio gan Sain yn noson Sefydliad Materion Cymreig | Derbyniwyd | Dros £25 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 24/01/11 | Cinio Sefydliad Materion Cymreig | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 24/01/11 | Cinio gan y WLGA | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 18/03/11 | Tocynnau Peldroed- Caernarfon v Crwydriaid Caernarfon - fel aelod glwb Rygbi Caernarfon gan Glwb Peldroed Caernarfon. | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 30/03/11 | Cinio Blynyddol Gofalwyr Maeth Gwynedd (Cyngor Gwynedd) | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 30/03/11 | Cinio gan yr “Harlech Society” | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 23/05/11 | Seremoni Sefydlu’r Cyng. Ioan Thomas yn Faer Caernarfon (gwahoddiad gan Gyngor Tref Caernarfon) | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 29/07/11 | 2 x tocyn i gyngerdd agoriadol yr Eisteddfod Genedlaethol gan Gwmni Ynni Gwynt Cymru | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 15 /08/11 | Cinio gan y “Devere Group” | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 31/08/11 | Cinio Gala Wythnos Busnes Gwynedd (Cyngor Gwynedd) | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 06/09/11 | Tocyn gwerth £50 am bryd o fwyd mewn bwyty a dwy botel o win – gan etholwr | Derbyniwyd | Tua £60 |

**Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch Aelodau 2012 - 2017**

| **Dyddiad ar y ffurflen/ebost** | **Rhodd/Lletygarwch a ddatganwyd** | **Derbyniwyd/ Gwrthodwyd** | **Gwerth** |
|---|---|---|---|
| 14/11/12 | Gwahoddiad Swper yng Ngwesty’r Celt gan Gyngor Celfyddydau Cymru | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 14/11/12 | Gwahoddiad tocyn a lluniaeth ar gyfer Gem Rygbi 6 Gwlad yng Nghaerdydd 17/3/12 | Gwrthodwyd | Dros £25 |

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **27 Tachwedd 2012** |
| **Teitl :** | **Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru 2011 - 2012** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Gweithredu :** | **Nodi er gwybodaeth** |

**Cefndir**

1. Bydd aelodau'n ymwybodol mai rôl Panel Dyfarnu Cymru yw ffurfio tribiwnlysoedd achos i ystyried honiadau yn erbyn aelodau o dorri'r Cod Ymddygiad. Mae'r Panel yn derbyn honiadau o'r fath mewn dwy ffordd – naill ai yn uniongyrchol gan yr Ombwdsmon neu ar ffurf apeliadau yn erbyn penderfyniadau Pwyllgorau Safonau.

2. Atodir copi o Adroddiad Blynyddol y Panel ar gyfer y flwyddyn 2011 - 2012.

**Argymhelliad**

3. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r adroddiad er gwybodaeth.

# Panel Dyfarnu Cymru

## Adroddiad Blynyddol

2011 - 2012

ISBN digidol 978 0 7504 8043 7
© Hawlfraint y Goron 2012
WG16627

# Rhagair

Mae'r adroddiad hwn yn adolygu gwaith Panel Dyfarnu Cymru yn ystod blwyddyn ariannol 2011-12.

Yn ystod 2011-12, dim ond 4 atgyfeiriad newydd a gafodd y Panel gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac roedd 8 achos wedi'u cario ymlaen o 2010-11. Er bod y niferoedd yn gymharol isel, o safbwynt gwrandawiadau tribiwnlys, mae un tribiwnlys penodol yn Sir y Fflint, sy'n dal i fynd rhagddo, wedi mynd â'r rhan fwyaf o amser y Panel.

Er bod y nifer isel o achosion newydd yn rhywbeth i'w groesawu yn gyffredinol, mae'n golygu nad yw'r aelodau newydd a benodwyd yn hydref 2010 wedi cael llawer o gyfle i gydweithio â'u cydweithwyr mwy profiadol ar y Panel er mwyn dysgu o'u gwybodaeth a'u profiad. Mae'n dda clywed, felly, bod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau wedi cytuno yn ddiweddar i gynnig ailbenodiadau 3 blynedd cyfyngedig hyd at 2015 i mi ac aelodau eraill o'r Panel a benodwyd yn 2002. Bydd hyn yn rhoi mwy o gyfle i aelodau newydd eistedd ar y Panel gyda'r aelodau gwreiddiol a dysgu o'u profiad.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddatblygu argymhellion adroddiad Pwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd ar ôl ei *'Adolygiad o Dribiwnlysoedd sy'n Gweithredu yng Nghymru.'* Rhagwelir y bydd gweinyddiaeth y Panel yn cael ei throsglwyddo i Uned Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Llywodraeth Cymru rywbryd eleni. Mae'r newid yn her i barhad gwaith y Panel yn y tymor byr, ond mae hefyd yn cynnig cyfleoedd mwy hirdymor i ddarparu gwasanaethau tribiwnlys mwy effeithiol ac effeithlon fel rhan o'r Uned newydd. Bydd ailbenodi aelodau yn darparu sefydlogrwydd ar gyfer swyddogaethau barnwrol y Panel yn ystod y cyfnod pontio hwn.

Rhan bwysig o'm gwaith yw sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd o wrandawiadau tribiwnlys yn cael eu rhannu â rhanddeiliaid ledled Cymru. Cyflawnir hyn yn rhannol drwy gyhoeddi'r adroddiad hwn a thrwy wefan y Panel. Roeddwn yn falch eto eleni o gael gwahoddiad i siarad yng Nghynhadledd Safonau Cymru 2011, a gynhaliwyd gan Gyngor Sir Powys. Mae'r gynhadledd flynyddol yn gyfle

delfrydol i'r rhai sy'n cyfrannu at y cod ymddygiad ac yn hyrwyddo safonau uchel i gyfarfod a rhannu profiadau.

Yn 2011-12, cafodd un o benderfyniadau tribiwnlys Panel Dyfarnu Cymru ei herio yn y Llysoedd am y tro cyntaf. Roedd yr achos yn seiliedig ar faterion yn ymwneud â hawl yr aelod i ryddid mynegiant o dan y gyfraith gyffredin ac Erthygl 10 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Dyfarnodd yr Uchel Lys fod diffiniad y Tribiwnlys o fynegiant gwleidyddol yn rhy gul a bod y Tribiwnlys wedi ymyrryd yn anghymesur â hawliau'r aelod o dan Erthygl 10 wrth ddyfarnu bod yr aelod wedi torri'r cod. Mae crynodeb byr o'r achos a'r cyfeirnod Llys i'w gweld yn adran 3.3 yr adroddiad hwn. Rwyf i a'm cyd-aelodau ar y Panel yn ystyried goblygiadau'r dyfarniad yn ofalus ar gyfer achosion y dyfodol.

Yn ogystal â chyfraith achosion sy'n deillio o'r Llysoedd, mae Tribiwnlysoedd yn rhoi sylw dyledus i ganllawiau ar y cod ymddygiad a gyhoeddwyd gan yr Ombwdsmon wrth wneud eu penderfyniadau. Mae canllawiau diwygiedig ar y cod ymddygiad a gyhoeddwyd gan yr Ombwdsmon yn adlewyrchu dyfarniad y Llys yn yr achos uchod..

I gloi, fy ngobaith yw y bydd yr adroddiad hwn a'r crynodebau achos o ddiddordeb i chi. Unwaith eto, mae'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Panel er mwyn arbed costau argraffu.

J PETER DAVIES
Llywydd y Panel Dyfarnu

# Cynnwys


## 1. Y Cefndir 4

1.1 Deddf Llywodraeth Leol 2000 4

1.2 Egwyddorion Ymddygiad / Cod Ymddygiad 4

1.3 Rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 5

1.4 Rôl Panel Dyfarnu Cymru 6

## 2. Aelodau Panel Dyfarnu Cymru 8

## 3. Honiadau o Gamymddwyn 11

3.1 Trosolwg 11

3.2 Crynodeb o'r Tribiwnlysoedd Achos 12

3.3 Crynodeb o'r Tribiwnlysoedd Apêl 17

3.4 Achosion sy'n Parhau 18

## 4. Trosolwg o'r Gweithdrefnau 19

## 5. Yr Uned Gymorth 21

## Atodiad

Crynodeb o'r cosbau a bennwyd gan y tribiwnlysoedd achos a'r tribiwnlysoedd apêl 22

# 1. Y Cefndir

## 1.1 Deddf Llywodraeth Leol 2000

Sefydlodd Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("Deddf 2000") fframwaith newydd i annog aelodau llywodraeth leol yng Nghymru a Lloegr i roi pwyslais ar gadw safonau ymddygiad cyson. Yn y bôn, mae'r fframwaith yn cynnwys:

- cyfres o ddeg egwyddor ymddygiad cyffredinol (yn deillio o'r "Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus");
- codau ymddygiad statudol ar wahân ar gyfer aelodau a swyddogion;
- pwyllgorau safonau lleol i gynghori aelodau ac awdurdodau perthnasol ar safonau ymddygiad;
- ymchwiliadau i gamymddwyn honedig gan aelodau yng Nghymru gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru neu swyddogion monitro awdurdodau lleol; a
- dyfarnu ymchwiliadau o'r fath gan bwyllgorau safonau lleol neu, mewn achosion mwy difrifol ar y cyfan, Panel Dyfarnu Cymru ("y Panel Dyfarnu").

"Awdurdodau perthnasol" dan Ran III o Ddeddf 2000 mewn perthynas â Chymru yw'r cynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol, cynghorau cymuned, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau'r parciau cenedlaethol ac awdurdodau'r heddlu.

## 1.2 Egwyddorion Ymddygiad/Cod Ymddygiad

Ar ôl i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ddod i rym, mae gan Weinidogion Cymru y grym o dan Ddeddf 2000 i bennu egwyddorion ymddygiad cyffredinol ac i wneud cod ymddygiad enghreifftiol ar gyfer aelodau etholedig ac aelodau cyfetholedig sydd â hawliau pleidleisio. Seiliwyd yr egwyddorion ar 'Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus' a nodwyd yn adroddiad yr Arglwydd Nolan, 'Safonau Ymddygiad mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban'.

Caiff yr egwyddorion cyffredinol eu hymgorffori yn y cod ymddygiad enghreifftiol cyfredol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2008. Mae'n ofynnol i'r holl gyrff llywodraeth leol yng Nghymru (ac eithrio awdurdodau'r heddlu) - hynny yw, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, cynghorau tref a chynghorau cymuned, awdurdodau'r parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub - fabwysiadu cod ymddygiad sy'n cynnwys darpariaethau'r cod enghreifftiol. Mae'n rhaid i'r holl aelodau etholedig a chyfetholedig (sydd â hawliau pleidleisio) roi ymrwymiad ysgrifenedig i gadw at y cod ymddygiad a fabwysiedir gan eu hawdurdod.

Mae Llywodraeth y DU yn pennu egwyddorion a chod ymddygiad ar wahân ar gyfer awdurdodau'r heddlu yng Nghymru. Fodd bynnag, adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, rhagwelir y bydd awdurdodau'r heddlu yn cael eu dileu yn hydref 2012.

## 1.3 Rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru/y Pwyllgorau Safonau

O dan Ddeddf 2000, caiff unrhyw un wneud honiad ysgrifenedig i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("yr Ombwdsmon") bod aelod etholedig neu gyfetholedig o awdurdod perthnasol yng Nghymru wedi methu, neu efallai wedi methu, cydymffurfio â chod ymddygiad eu hawdurdod.

Os yw'r Ombwdsmon yn ystyried bod yr honiad yn haeddu ymchwiliad, gall drefnu i'r ymchwiliad gael ei gynnal gan ei swyddfa. Fel arall, gall yr Ombwdsmon gyfeirio'r mater at y swyddog monitro perthnasol er mwyn ymchwilio iddo a chyflwyno adroddiad i'r pwyllgor safonau lleol.

Gall yr Ombwdsmon ddod i'r casgliad ar ôl yr ymchwiliad nad oedd achos o dorri'r cod ac nad oes angen cymryd unrhyw gamau pellach. Fodd bynnag, os oes tystiolaeth ymddangosiadol o dorri'r cod, bydd yr Ombwdsmon yn llunio adroddiad ar ôl cwblhau'r ymchwiliad ac yn ei anfon naill ai at swyddog monitro yr awdurdod perthnasol neu at Lywydd Panel Dyfarnu Cymru er mwyn cael dyfarniad terfynol.

## 1.4 Rôl Panel Dyfarnu Cymru

Mae gan y Panel Dyfarnu ddwy swyddogaeth statudol:

- Ffurfio tribiwnlysoedd achos neu dribiwnlysoedd achos interim i ystyried adroddiadau gan yr Ombwdsmon yn dilyn ymchwiliad i honiadau bod aelod wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad eu hawdurdod; ac
- Ystyried apelau gan aelodau yn erbyn penderfyniadau pwyllgorau safonau awdurdod lleol eu bod wedi torri'r cod ymddygiad.

## Tribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim

Pan fydd yr Ombwdsmon yn anfon adroddiad at Lywydd y Panel Dyfarnu, caiff "tribiwnlys achos" sy'n cynnwys rhai o aelodau'r Panel ei alw i ystyried yr adroddiad, i dderbyn tystiolaeth ac i benderfynu a dorrwyd y cod ymddygiad.

Os bydd y tribiwnlys yn penderfynu bod aelod heb gydymffurfio â chod ymddygiad ei awdurdod, mae ganddo bwerau i wahardd yr aelod yn llwyr neu'n rhannol am hyd at flwyddyn; neu caiff anghymhwyso'r aelod am hyd at bum mlynedd.

Os bydd tribiwnlys achos yn penderfynu bod rhywun heb gydymffurfio â chod ymddygiad awdurdod, caiff y person hwnnw geisio caniatâd yr Uchel Lys i apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw, neu unrhyw benderfyniad a wnaiff y tribiwnlys o ran cosb.

Os bydd yr Ombwdsmon o'r farn bod hynny'n angenrheidiol er budd y cyhoedd, caiff yr Ombwdsmon wneud adroddiad interim i Lywydd y Panel Dyfarnu yn argymell bod aelod yn cael ei wahardd dros dro tra cynhelir ymchwiliad. Bydd tribiwnlys achos interim yn penderfynu a ddylid gwahardd yr aelod yn llwyr neu'n rhannol am hyd at chwe mis.

## Tribiwnlysoedd Apêl

Os bydd yr Ombwdsmon wedi cyfeirio'r mater at swyddog monitro a bod y pwyllgor safonau wedi dyfarnu bod aelod heb gydymffurfio â'r cod ymddygiad, mae gan yr aelod hwnnw hawl i apelio i'r Panel Dyfarnu. Rhaid ymarfer yr hawl honno cyn pen 21 diwrnod ar ôl i'r aelod gael gwybod am ddyfarniad y pwyllgor safonau. Os bydd tribiwnlys apêl yn cytuno bod yr aelod wedi torri'r cod, gall gadarnhau'r gosb a bennwyd gan y pwyllgor safonau neu gall gyfeirio'r mater yn ôl at y pwyllgor gan argymell y dylid rhoi cosb wahanol. Yn ogystal, gall tribiwnlys apêl wrthdroi dyfarniad pwyllgor safonau bod aelod wedi torri'r cod ymddygiad.

# 2. Aelodau Panel Dyfarnu Cymru

Dangosir aelodau presennol y Panel Dyfarnu isod. Gyda'i gilydd, mae gan aelodau'r Panel brofiad a gwybodaeth berthnasol eang i gyfrannu at waith y Panel a'i dribiwnlysoedd. Maent yn dod o rannau gwahanol o Gymru sy'n hwyluso'r broses o benodi aelodau i dribiwnlysoedd ar sail ddaearyddol.

Mae'r Llywydd, pedwar o'r aelodau cyfreithiol ac un o'r aelodau lleyg yn siarad Cymraeg.

## Y Llywydd ac Aelodau Cyfreithiol



2002-2012

Mae Llywydd y Panel Dyfarnu, **Mr J Peter Davies** yn rhedeg ei bractis cyfreithiol ei hun yng Nghaerdydd sy'n arbenigo mewn ymgyfreitha sifil a masnachol ac, yn arbennig, mewn materion rheoleiddio. Mae'n Ddirprwy Farnwr Rhanbarth ac yn gadeirydd y Tribiwnlys Disgyblu Cyfreithwyr.



2010-2015

**Ms Kate Berry** - bu'n Gyfreithiwr a Swyddog Monitro gyda Chyngor Dinas a Sir Caerdydd. Mae ganddi brofiad yng nghyfraith y sector preifat a'r sector cyhoeddus a bu'n gynghorwr tref yn Nailsworth.



2010-2015

Ar hyn o bryd, mae **Mrs Emma Boothroyd** yn ddyfarnwr gyda'r Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr. Mae ganddi brofiad ym maes cyfraith breifat.



2002-2012

Mae **Mrs Helen Cole** yn uwchbartner mewn practis cyffredinol yn y Gorllewin ac yn arbenigo mewn gwaith annadleuol gyda chleientiaid preifat.



2010-
2015

Mae **Mr Gwyn Davies** yn gyfreithiwr sydd â phrofiad mewn awdurdodaethau cyfreithiol amrywiol yn y sectorau preifat a chyhoeddus. Bu'n Gadeirydd Pwyllgor Safonau Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.



2002-
2012

Mae **Mr Hywel James** yn Farnwr Rhanbarth.



2002-
2012

Mae **Mr Stewert Sandbrook-Hughes** yn fargyfreithiwr yn Abertawe.

## Aelodau Lleyg




2010-
2015

Mae **Mr Andrew Bellamy** yn Gyfarwyddwr anweithredol gydag Estyn ac yn adolygydd cymheiriaid gydag Arolygiaeth Iechyd Cymru. Mae ganddo brofiad o weithio yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol.



2002-
2012

Bu **Mr Ian Blair** yn Syrfëwr y Sir gyda Chyngor Sir Powys ac yn ddarlithydd gwadd ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth. Mae'n aelod o Fwrdd Llysoedd Canolbarth a Gorllewin Cymru.



2002-
2012

Mae'r **Cllr Colin Evans** yn gynghorydd Llafur ar Gyngor Sir Caerfyrddin.



2010-2015

Mae **Miss Susan Hurds** yn aelod lleyg o Dribiwnlysoedd Cyflogaeth Cymru a Lloegr. Mae ganddi brofiad o weithio yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, yn ddiweddar gyda Bwrdd Iechyd Lleol Ceredigion. Mae hi hefyd yn Gadeirydd Panel y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.



2002-2012

Mae **Mrs Christine Jones** yn gyn-aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae hefyd yn aelod o fwrdd Cymdeithas Tai Cartrefi Conwy.



2002-2012


Mae **Ms Juliet Morris** yn rhedeg busnes fferm organig yn Sir Gaerfyrddin. Bu'n gweithio ym maes polisi cymdeithasol a pholisi'r sector cyhoeddus gyda chyrff yn cynnwys Uned Gwybodaeth Llywodraeth Leol, Cyngor Defnyddwyr Cymru a'r sector cynghori annibynnol yng Nghymru.

# 3. Honiadau o Gamymddwyn


## 3.1 Trosolwg

Yn y cyfnod rhwng mis Hydref 2002 a 31 Mawrth 2012, daeth y Panel Dyfarnu i benderfyniad ar 37 o achosion a atgyfeiriwyd gan yr Ombwdsmon a 10 apêl yn erbyn penderfyniadau gan bwyllgorau safonau. Mae Ffigurau 1 i 3 yn dangos canlyniadau'r dyfarniadau hynny. Rhoddir crynodeb o'r cosbau a roddwyd yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn.


### Ffigur 1: Penderfyniadau tribiwnlysoedd achos - Hydref 2002 i Mawrth 2012




### Ffigur 2: Penderfyniadau tribiwnlysoedd apêl - Hydref 2002 i Mawrth 2012



Ffigur 3: Sut y torrwyd y cod Hydref 2002 - Mawrth 2012




## 3.2 Crynodeb o'r Tribiwnlysoedd Achosion

Cyfeiriodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 4 achos i'r Panel yn ystod 2011-12 a chariwyd 6 achos drosodd o'r flwyddyn flaenorol. Ceir crynodeb isod o'r 6 achos a benderfynwyd gan y Panel yn ystod y flwyddyn.

## APW/006/2010-011/CT & APW/010/2010-11/CT - Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Cyfeiriodd yr Ombwdsmon ddau achos ar wahân ac ystyriwyd y rhain gan Dribiwnlys unigol.

Yr honiadau oedd bod y cynghorydd wedi torri cod ymddygiad y Cyngor drwy ddefnyddio gliniadur y Cyngor i greu arolwg barn amhriodol am Amanda Knox; drwy gyhoeddi sylwadau amhriodol ar y rhyngrwyd am bobl sy'n hawlio

Budd-dal Tai; anfon negeseuon e-bost amhriodol; camddefnyddio adnoddau'r Cyngor; torri polisïau'r Cyngor ynglŷn â Diogelwch y Rhyngrwyd; methu parchu ac ystyried pobl eraill; datgelu llythyr cyfrinachol; cyhoeddi datganiad i'r wasg a oedd yn fwriadol gamarweiniol; a dwyn anfri ar swydd cynghorydd a'i awdurdod.

Gwadodd y cynghorydd ei fod wedi creu arolwg barn ar-lein a dywedodd fod y sylwadau amhriodol a gyhoeddwyd ar y rhyngrwyd wedi'u gwneud o safbwynt personol neu breifat. Fodd bynnag, dyfarnodd y Tribiwnlys fod y cynghorydd wedi ymddwyn yn groes i baragraffau 4(b) a 7(b) i hyd at vi drwy ddefnyddio gliniadur a mynediad i'r rhyngrwyd o eiddo'r cyngor a thrwy gyfeirio at gyfeiriad e-bost y cyngor.

Wrth gynrychioli ei awdurdod ar gorff arall, dyfarnodd y Tribiwnlys fod y cynghorydd wedi datgelu gwybodaeth mewn llythyr a nodwyd yn un "cyfrinachol" yn groes i baragraffau 3(a) a 5(a).

Dyfarnodd y Tribiwnlys fod y sylw yn y cyfryngau yn deillio o weithredoedd y cynghorydd wedi dwyn anfri ar ei swydd a'i awdurdod yn groes i baragraff 6(1)(a).

Gwaharddwyd y cynghorydd dros dro am naw mis ac fe'i cynghorwyd i gael rhagor o hyfforddiant ar y cod ymddygiad.

## APW/007/2010-011/CT - Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Roedd yr achos hwn yn ymwneud â honiadau bod y cynghorydd wedi torri'r cod ymddygiad drwy beidio â datgelu buddiant a thrwy ddefnyddio ei swydd yn amhriodol wrth roi rhoddion i sefydliadau lleol o dan Lwfans Cynlluniau Bach y Cyngor.

Roedd y cynghorydd wedi cwblhau ffurflenni cais yn gofyn am roddion ar gyfer sefydliadau lleol ond roedd wedi methu datgelu bod ganddo fuddiannau personol neu fuddiannau sy'n rhagfarnu yn y sefydliadau hynny adeg y rhodd, yn groes i baragraffau 6(1)(a), 7(a),10(1),11(2)(a) a 14(1)(d).

Dyfarnodd y Tribiwnlys fod y cynghorydd, ar adegau blaenorol, wedi datgelu buddiannau yn yr un sefydliadau yr oedd wedi llofnodi ffurflenni yn eu cylch maes o law yn datgan nad oedd ganddo unrhyw fuddiant ynddynt. Er nad oedd y cynghorydd wedi ceisio cael unrhyw fudd ariannol iddo ef ei hun, roedd y Tribiwnlys yn fodlon bod ganddo fuddiant personol neu fuddiant sy'n rhagfarnu. Roedd y

Tribiwnlys yn bryderus bod y cynghorydd yn rhy brysur i fynychu hyfforddiant ar y cod ymddygiad a'i fod wedi ceisio priodoli'r achosion o dorri'r cod i'w ymrwymiadau eraill.

Penderfynodd y Tribiwnlys y dylid gwahardd y cynghorydd dros dro am fis ac y dylai fynychu'r sesiwn hyfforddi nesaf ar y Cod Ymddygiad.

## APW/011/2010-011/CT - Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru a Chyngor Sir Ynys Môn

Roedd yr achos hwn yn ymwneud â honiadau bod y cynghorydd wedi torri'r cod ymddygiad ar gyfer aelodau o Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru drwy geisio siarad â'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro ynglŷn â chŵyn yn erbyn etholwr; drwy feirniadu sut oedd yr heddlu yn cynnal yr ymchwiliad i'r etholwr; drwy ymddwyn mewn ffordd ormesol a bygythiol yn erbyn 3 heddwas yn ystod ymweliad â Gorsaf yr Heddlu Caergybi a thrwy geisio dylanwadu ar ymchwiliad yr heddlu.

Roedd yr honiadau o safbwynt cod ymddygiad Cyngor Sir Ynys Môn yn ymwneud â'r honiad iddo fwlio ac aflonyddu ar eraill yng Ngorsaf yr Heddlu Caergybi a methu dangos parch tuag atynt; iddo ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol am iechyd cyd-gynghorydd ac iddo ddwyn anfri ar ei swydd neu ei awdurdod.

Nid oedd y Tribiwnlys yn fodlon bod cod ymddygiad Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru yn berthnasol. Roedd y Tribiwnlys yn fodlon nad oedd y cynghorydd wedi rhoi'r argraff ei fod yn gweithredu fel cynrychiolydd o'r awdurdod hwnnw.

Ni ddaeth y Tribiwnlys o hyd i unrhyw dystiolaeth bod y cynghorydd wedi datgelu gwybodaeth y gellid ei hystyried yn gyfrinachol, ei fod wedi ceisio sicrhau mantais iddo ef ei hun neu ei etholwr, na'i fod wedi ceisio peryglu diffyg tuedd y rhai a oedd yn gweithio i Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru. Roedd y Tribiwnlys yn fodlon bod ei ymddygiad yn ystod ei sgwrs ag un o'r plismyn yng Ngorsaf yr Heddlu Caergybi yn amhriodol, a'i fod wedi methu dangos parch tuag ati neu ei hystyried, yn groes i baragraff 4(b).

Roedd y Tribiwnlys yn fodlon bod ei ymddygiad wedi dwyn anfri ar ei swydd fel cynghorydd ac ar y Cyngor ei hun, yn groes i baragraff 6(1)(a).

Derbyniodd y Tribiwnlys fod y cynghorydd wedi gwasanaethu ei gymuned dros gyfnod helaeth ac mai digwyddiad eithriadol oedd hwn lle'r oedd y cynghorydd wedi camddeall yn ddidwyll yr hyn y gallai ac y dylai ei wneud am y sefyllfa a oedd yn ei wynebu ef a'i etholwr.

Penderfynodd y Tribiwnlys y dylid ceryddu'r cynghorydd a'i rybuddio am ei ymddygiad yn y dyfodol.

## APW/001/2011-012/CT - Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Roedd yr achos hwn yn ymwneud â honiadau bod cynghorydd wedi parhau ag arferion a fu'n sail i'w ddwyn gerbron tribiwnlys Panel Dyfarnu Cymru, a'i gwaharddodd dros dro am 12 mis, yn syth ar ôl ymddangos gerbron y tribiwnlys. Roedd wedi rhyddhau datganiadau i'r wasg yn ymwneud â'r gwrandawiad hwnnw a'i waharddiad. Roedd hefyd wedi mynegi barn ar uniondeb a gonestrwydd y Cyngor a'i uwch swyddogion.

Yn absenoldeb ymateb gan y cyn-gynghorydd erbyn hyn, o fewn y dyddiad cau statudol, penderfynodd y Tribiwnlys ar ei ddyfarniad ar sail y papurau ger ei fron wrth weithredu ei bwerau o dan baragraff 3(3) Rheoliadau Dyfarniadau gan Dribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim (Cymru) 2001.

Ystyriodd y Tribiwnlys honiadau bod y negeseuon e-byst a anfonodd y cynghorydd yn groes i baragraff 6(1)(a) o'r cod ymddygiad. Yn ogystal, ystyriodd y Tribiwnlys Ddatganiad Cyhoeddus y cynghorydd a oedd yn herio'r sylfaen gyfreithiol dros fodolaeth Panel Dyfarnu Cymru a'i gyhuddo o ragfarn gynhenid. Nid oedd y cynghorydd wedi cyflwyno unrhyw ffeithiau neu dystiolaeth i gefnogi unrhyw un o'i honiadau.

Nododd y Tribiwnlys fod y Tribiwnlys blaenorol wedi ystyried yn ofalus a ddylid anghymhwyso'r cynghorydd, ond ar sail ymrwymiad y cynghorydd i gadw at y cod ymddygiad, rheoli ei ymddygiad a gweithredu mewn ffordd anwrthwynebus yn y dyfodol, roedd wedi'i wahardd dros dro am 12 mis.

Er gwaethaf yr ymrwymiadau a wnaed yn y gwrandawiad blaenorol, nododd y Tribiwnlys iddo barhau i ryddhau datganiadau i'r wasg yn cynnwys honiadau heb eu profi ddiwrnod ar ôl y gwrandawiad.

Penderfynodd y Tribiwnlys fod y cyn-gynghorydd yn haeddu cael ei wahardd rhag dal swydd gyhoeddus am 3 blynedd.

# APW/008/2010-2011/CT - Cyngor Tref Saltney a Chyngor Sir y Fflint

Roedd yr achos yn ymwneud â honiadau bod y cynghorydd wedi ymddwyn yn amhriodol yn ystod cyfarfodydd y cyngor; wedi achosi gofid i unigolyn arall; wedi methu rhoi cyfrif am ei lwfans fel maer; wedi datgelu gwybodaeth gyfrinachol a bod ei ymddygiad wedi dwyn anfri ar ei swydd a'r awdurdodau.

Dyfarnodd y Tribiwnlys fod y cynghorydd, pan oedd yn Faer, wedi gwneud sylwadau amhriodol am Saltney nad oedd yn fodlon eu tynnu yn ôl; wedi gohirio un o gyfarfodydd y cyngor yn groes i benderfyniad y Cyngor Tref ac wedi dod â chyfarfod arall i ben yn gynnar; wedi trin Clerc y Dref a'r Dirprwy Faer mewn ffordd ddifrïol ac anghwrtais yn y cyfarfod agenda; wedi cyfeirio at aelodau fel "wild bisons and spoilt brats" ac wedi gwrthod cydymffurfio â rheolau sefydlog a chynigion y cyngor ei hun, yn groes i baragraff 6(1)(a).

Dyfarnodd y Tribiwnlys fod y cynghorydd wedi bwlio Clerc y Dref yn ystod cyfarfodydd y cyngor ac wrth gysylltu â'r clerc yn gyffredinol, yn groes i baragraff 4(c) ac wedi anwybyddu ei gyngor, yn groes i baragraff 8(a). Roedd wedi achosi gofid i weddw maer blaenorol trwy ei holi ynghylch lwfans ei diweddar ŵr fel maer, gan wrthod ymddiheuro wedyn, yn groes i baragraff 4(b).

Er bod y Grŵp Gorchwyl Busnes wedi penderfynu cynnal ei gyfarfodydd mewn sesiynau cyfrinachol ac na ddylid trafod materion â thrydydd partïon, dyfarnodd y Tribiwnlys fod y cynghorydd wedi datgelu sylwadau a wnaed am yr ysgol uwchradd leol wrth bennaeth yr ysgol, yn groes i baragraff 5(a).

Penderfynodd y Tribiwnlys fod y cynghorydd wedi torri cod ymddygiad Cyngor Tref Saltney ac y dylid ei wahardd dros dro am 12 mis. Penderfynodd y Tribiwnlys nad oedd cod ymddygiad Cyngor Sir y Fflint wedi'i dorri.

## 3.3 Crynodeb o'r Tribiwnlysoedd Apêl

Roedd 2 wrandawiad tribiwnlys apêl yn ystod y flwyddyn.

## APW/009/2010-011/A - Cyngor Cymuned Maenorbŷr

Cafwyd apêl yn erbyn penderfyniad Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Penfro bod y cynghorydd wedi torri cod ymddygiad y cyngor cymuned, y dylid ceryddu'r cynghorydd ac y dylai ymrwymo i fynychu hyfforddiant ar y cod ymddygiad.

Roedd yr achos yn ymwneud â honiadau bod barn a safbwyntiau a fynegwyd ar wefan y cynghorydd ynglŷn â chymeriad a gallu rhai o aelodau'r Cyngor Cymuned wedi torri'r cod ymddygiad trwy beidio â pharchu ac ystyried eraill a thrwy ddwyn anfri ar ei awdurdod.

Dywedodd y cynghorydd nad oedd yn gweithredu yn rhinwedd ei swydd a bod y sylwadau ar ei wefan yn sylwadau gwleidyddol dilys ar weithredoedd y Cyngor Cymuned a chynghorwyr unigol. Honnodd fod y penderfyniad ei fod wedi torri'r cod yn amharu mewn ffordd amhriodol ar ei hawl i ryddid mynegiant o dan Erthygl 10 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Penderfynodd y Tribiwnlys Apêl y byddai aelod o'r cyhoedd a fyddai'n darllen y wefan yn cael yr argraff bod y cynghorydd yn gweithredu fel aelod o'r Cyngor Cymuned. Penderfynodd y Tribiwnlys Apêl fod y sylwadau ar y wefan, p'un ai a oeddent yn wir ai peidio, yn dangos diffyg parch at aelodau unigol o'r cyngor a'r cyngor fel corff. Er bod Erthygl 10 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn berthnasol i'r achos, penderfynodd y Tribiwnlys nad oedd y lefel uwch o amddiffyniad ar gyfer mynegiant gwleidyddol yn berthnasol.

Cadarnhaodd y Tribiwnlys Apêl benderfyniad y Pwyllgor Safonau fod y cynghorydd wedi torri'r cod ymddygiad a chymeradwyodd y gosb y dylid ei geryddu ac y dylai ymrwymo i fynychu hyfforddiant ar y cod ymddygiad.

*Noder: cafodd penderfyniadau'r Tribiwnlys Apêl a'r Pwyllgor Safonau eu gwrthdroi yn dilyn Adolygiad Barnwrol gan yr Uchel Lys - Cyf:[2012] EWHC 1172 (Admin).*

## APW/012/2010-011/A - Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Cafwyd apêl yn erbyn penderfyniad Pwyllgor Moeseg a Safonau Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen bod y cynghorydd wedi torri cod ymddygiad y Cyngor ac y dylid ei geryddu. Er nad oedd yn apelio yn erbyn y penderfyniad iddo dorri'r cod ymddygiad, roedd y cynghorydd yn apelio yn erbyn y gosb.

Roedd yr honiadau yn ymwneud â methiant y cynghorydd i gadw cofnodion cywir o'i apwyntiadau a'i fuddiannau yn y gofrestr statudol, yn groes i baragraffau 15(1) a 15(2). Roedd y cynghorydd wedi cwblhau ffurflenni cais yn gofyn am roddion o dan Lwfans Cynlluniau Bach y Cyngor ar gyfer Cynghrair Mynediad i Dorfaen ac Ysgol Gyfun Fairwater, ond roedd wedi methu datgelu bod ganddo fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu, yn groes i baragraffau 11(2)(a) a 14(1)(d).

Ystyriodd y Tribiwnlys Apêl nifer yr achosion o dorri'r cod a ganfu'r Pwyllgor Safonau, y ffaith fod y cynghorydd wedi oedi cyn diweddaru'r gofrestr buddiannau a'r datganiad anwir nad oedd gan y cynghorydd unrhyw fuddiant.

Penderfynodd y Tribiwnlys Apêl yn unfrydol y dylid cymeradwyo penderfyniad y Pwyllgor Moeseg a Safonau ac y dylid ceryddu'r cynghorydd.

## 3.4 Achosion sy'n Parhau

Erbyn mis Medi 2012, roedd y Panel Dyfarnu wedi dyfarnu ar 3 achos yn y flwyddyn ariannol gyfredol ac roedd 5 achos arall yn parhau. Mae'r rhain yn cynnwys amrywiaeth o achosion posibl o dorri codau ymddygiad, fel peidio â dangos parch, ceisio camddefnyddio eu swydd fel aelod, dychryn a bwlio gweithwyr y cyngor a gwneud honiadau cyhoeddus di-sail am swyddogion.

Ceir rhagor o wybodaeth am achosion sydd wedi'u cwblhau yn adroddiadau penderfyniadau'r tribiwnlysoedd a gyhoeddir ar wefan y Panel: www.paneldyfarnucymru.org.uk

# 4. Trosolwg o'r Gweithdrefnau

Rheolir gwaith Panel Dyfarnu Cymru gan Ran III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ac is-ddeddfwriaeth a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru/Gweinidogion Cymru a Llywodraeth San Steffan (yr olaf ynglŷn ag awdurdodau'r heddlu).

Prif nod y Panel Dyfarnu yw sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i gyflwyno eu hachos a bod yr achos hwnnw'n cael yr ystyriaeth lawnaf a thecaf sy'n bosibl.

Fel rheol, bydd cadeirydd sydd â chymwysterau cyfreithiol a dau arall yn aelodau o dribiwnlys. Gellir amrywio hyn yn ôl disgresiwn Llywydd y Panel Dyfarnu.

Fel rheol, cynhelir gwrandawiadau tribiwnlysoedd yn gyhoeddus ac eithrio os yw'r tribiwnlys o'r farn y byddai cyhoeddusrwydd yn rhagfarnu buddiannau cyfiawnder, neu os yw'r ymatebydd neu'r apelydd yn cytuno y gellir delio â'r honiadau trwy gyfrwng sylwadau ysgrifenedig. O bryd i'w gilydd, gall fod rhesymau eraill dros beidio â chynnal gwrandawiad, neu ran o wrandawiad, yn gyhoeddus.

Fel rheol, cynhelir gwrandawiadau yn ardal yr awdurdod perthnasol os oes yno le addas. Mae trefniadau'r gwrandawiadau'n ystyried gofynion arbennig y rhai a fydd yn bresennol e.e. os oes angen lle ar gyfer cadair olwyn, dehonglydd/cyfieithydd, cymorth clyw, ac ati.

Darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i rai sy'n dymuno i wrandawiad tribiwnlys gael ei gynnal yn y Gymraeg.

Mae gan y sawl y gwnaed yr honiadau amdano hawl i roi tystiolaeth, i alw ar dystion, i holi unrhyw dystion ac i annerch y tribiwnlys ar faterion sy'n ymwneud â'r honiadau sydd o dan ystyriaeth.

Cyhoeddir manylion gwrandawiadau tribiwnlysoedd a'u canlyniad ar wefan y Panel ac yn y wasg leol, fel sy'n briodol.

Mae'n bosibl gofyn am ganiatâd yr Uchel Lys i apelio yn erbyn penderfyniad tribiwnlysoedd achos interim a thribiwnlysoedd achos a sefydlwyd gan y Panel Dyfarnu. Nid yw'n bosibl apelio yn erbyn penderfyniadau tribiwnlysoedd apêl ond, fel corff cyhoeddus, gellir cynnal adolygiad barnwrol o'r Panel Dyfarnu a'i dribiwnlysoedd lle bo hynny'n briodol.

Ceir rhagor o wybodaeth am weithdrefnau tribiwnlysoedd ar wefan y Panel Dyfarnu.

# 5. Yr Uned Gymorth

Cefnogir y Panel Dyfarnu gan:

Stephen Phipps, Cofrestrydd y Panel
John Davies
Carol Webber
Jason Plange

Cyfeiriad y Panel yw:

Panel Dyfarnu Cymru
Llawr 1af, Adain y Gogledd (N-04)
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 6705/6414
Ffacs: 029 2082 3442

E-bost: adjudicationpanel@wales.gsi.gov.uk
Gwefan: www.paneldyfarnucymru.org.uk

# Atodiad

## Crynodeb o'r Cosbau a Bennwyd gan y Tribiwnlysoedd Achos a'r Tribiwnlysoedd Apêl yn y Cyfnod rhwng mis Hydref 2002 a mis Mawrth 2012

| Cosb | Cyfnod | Nifer y penderfyniadau |
|---|---|---|
| Tribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Apêl | | |
| Anghymhwyso | 3 blynedd | 1 |
| | 2 flynedd 6 mis | 1 |
| | 2 flynedd | 1 |
| | 1 flwyddyn 6 mis | 1 |
| | 1 flwyddyn | 3 |
| Gwahardd | 12 mis | 6 |
| | 9 mis | 4 |
| | 6 mis | 4 |
| | 4 mis | 1 |
| | 3 mis | 2 |
| | 2 fis | 4 |
| | 1 mis | 3 |
| Gwahardd yn rhannol | 3 mis | 1 |
| | 7 wythnos | 1 |
| Cerydd | - | 5 |
| Torri'r cod - dim camau | - | 5 |
| Heb dorri'r cod | - | 4 |
| Wedi eu tynnu yn ôl | - | 2 |

| Apelau | |
|---|---|
| Cadarnhau/gwrthod y dyfarniad | 9 (90%)/1 (10%) |
| Cadarnhau'r gosb | 7 |
| Argymell cosb wahanol | 1 cynnydd/1 gostyngiad |
| Heb dderbyn<br>• Allan o amser<br>• Heb fod o fewn awdurdodaeth | <br>1<br>1 |

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **27 Tachwedd 2012** |
| **Teitl :** | **Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon 2011/12** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Gweithredu :** | **Nodi er Gwybodaeth** |

**Cefndir**

1. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi cyhoeddi ei adroddiad blynyddol am y flwyddyn 2011 – 2012.

2. Mae copi o'r rhannau hynny o'r adroddiad sy'n berthnasol i gwynion cod ymddygiad wedi ei gynnwys fel **Atodiad** i'r adroddiad hwn. Gellir gweld copi llawn o'r adroddiad ar wefan yr Ombwdsmon (www.ombudsman-wales.org.uk)

**Argymhelliad**

3. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r adroddiad.

ATODIAD

# 1. Cyflwyniad



Rwyf yn falch o gyflwyno'r adroddiad blynyddol hwn, y pedwerydd gennyf fi ers imi ymgymryd â swydd yr Ombwdsmon (a chweched adroddiad blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ers creu'r swydd yn 2006).

Y thema ar gyfer yr adroddiad blynyddol hwn yw 'Gwella Mynediad: Cyflawni Gwelliant'. Mae hyn yn adlewyrchu'r gwaith sydd wedi'i wneud i wella mynediad i weithdrefnau cwynion y cyrff sydd o dan fy awdurdodaeth, cyrff eraill sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus, gwasanaethau ombwdsmon (gan gynnwys fy ngwasanaeth fy hun) a chynlluniau eraill sy'n delio â chwynion. Mae hyn wedi'i gyflawni drwy hybu ymwybyddiaeth, gan ei gwneud yn haws i bobl sydd â nodweddion gwarchodedig gael mynediad i weithdrefnau cwynion. Hefyd, drwy wasanaeth cyfeirio Cwynion Cymru rydym wedi darparu mwy o wybodaeth am y ffordd y gall pobl gael gafael ar wasanaethau cyngor ac eiriolaeth i'w helpu i wneud cwyn.

Mae cyflawni gwelliant yn ymwneud â'n gwaith ar wella'r ffordd o gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, drwy sicrhau cydymffurfio â'r argymhellion sydd yn fy adroddiadau ymchwiliad, drwy gydweithio â chyrff rheoleiddio i sicrhau bod y newidiadau sydd wedi'u cyflwyno'n rhai effeithiol a pharhaol, a thrwy geisio rhannu'r gwersi o'r ymchwiliadau hynny â chyrff eraill sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus.

Y flwyddyn 2011/12 oedd blwyddyn olaf fy Nghynllun Strategol tair blynedd. Cyflawnwyd gwaith sylweddol ar sail y Cynllun hwnnw. Yn ogystal â chyflawni'r amcanion sydd ynddo, cyflawnwyd pethau allweddol eraill a oedd heb eu rhagweld ar yr adeg pan ddatblygwyd y cynllun yn wreiddiol. Nid lleiaf ymhlith y rhain oedd creu gwasanaeth Cwynion Cymru. Mae'r gwasanaeth ffôn a gwe arloesol hwn yn rhoi cyngor i'r aelodau hynny o'r cyhoedd sy'n dymuno gwneud cwyn am wasanaeth cyhoeddus ond sydd heb wybod sut i wneud hynny. Rwyf yn trafod hyn yn fwy manwl yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, rwyf yn neilltuol o falch, yng nghyd-destun gwasanaethau ombwdsmon drwy'r byd, ein bod ni yng Nghymru ar y blaen, yn ôl pob golwg, wrth gynnig gwasanaeth o'r fath, ac mae nifer o rai eraill yn ystyried dilyn yr un llwybr yn awr.

Gyda golwg ar ein gweithgarwch craidd, mae nifer y cwynion yr wyf yn eu cael am wasanaethau cyhoeddus yn dal i godi, ac mae'n 13% yn uwch na'r nifer yn 2010/11. Cyflwynwyd Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG ar 1 Ebrill 2011 ac, er y gellir priodoli rhywfaint o'r cynnydd i hynny, nid yw ond yn un ffactor ymhlith nifer. Testun pryder oedd bod nifer y cwynion o dan y cod ymddygiad wedi codi 49% ac rwyf yn trafod hyn yn Adran 4 o'r adroddiad hwn.

Rydym wedi cymryd camau mawr ymlaen yn y tair blynedd diwethaf i drafod cwynion yn fwy effeithlon. Yn benodol, er bod nifer yr ymholiadau a chwynion sy'n dod i law wedi codi'n sylweddol, rwyf yn falch ein bod wedi llwyddo i ragori ar ein targedau perfformiad. Hefyd, gwnaethom uwchraddio ein system weinyddu cwynion yn ystod y flwyddyn er mwyn defnyddio technoleg newydd i gyflawni rhai o'r tasgau gweinyddol sy'n gysylltiedig â thrafod cwynion. Yn ystod y flwyddyn i ddod, byddaf yn ystyried pa gamau pellach y gallem eu cymryd i wella effeithlonrwydd. Er hynny, rwyf yn ymwybodol mai dim ond hyn a hyn y gallwn ei wneud o ran hybu cynhyrchiant a symleiddio ein ffyrdd o weithio cyn y bydd bygythiad i ansawdd a thrylwyredd ein gwaith.

Yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, rwyf hefyd wedi llunio fy Nghynllun Strategol ar gyfer y tair blynedd nesaf, drwy broses a oedd yn cynnwys pob un o'm staff. Yn ystod y cyfnod hwn, byddwn yn ymdrechu i wireddu gweledigaeth sydd fymryn yn wahanol ar gyfer y gwasanaeth, sef:

> I unioni pethau ar gyfer pobl sy'n defnyddio gwasanaethau cyhoeddus ac i ysgogi gwelliannau yn y gwasanaethau hynny ac o ran safonau mewn bywyd cyhoeddus drwy ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd o'r cwynion rydym yn eu hystyried.

Lluniwyd Cynllun Cydraddoldeb Strategol hefyd yn ystod y flwyddyn. Roedd y gwaith hwn yn ofynnol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Mae hefyd yn ofynnol i mi lunio adroddiad blynyddol ar gydraddoldeb o dan y dyletswyddau penodol. Rwyf wedi penderfynu mai'r Adroddiad Blynyddol hwn yw'r lle mwyaf priodol i wneud hynny. Felly mae adroddiad ar weithgareddau fy swyddfa mewn cysylltiad â materion cydraddoldeb ac amrywiaeth yn Adran 8.

Rydym hefyd wedi parhau â gweithgareddau i hybu ymwybyddiaeth o'r swyddfa a'i gwaith. Un agwedd ar hyn oedd cynnal seminar ar gyfer cyrff gwirfoddol yng Nghymru. Cawsom gyfarfodydd unigol hefyd yn ystod y flwyddyn â chyrff cynghori ar eirioli. Pleser neilltuol hefyd oedd estyn croeso i Mrs Rosemary Butler, Llywydd y Cynulliad, i'r swyddfa. Roedd fy staff yn gwerthfawrogi'r amser a roddodd iddynt a'r diddordeb a oedd ganddi yn eu rolau penodol.

Rwyf wedi adrodd o'r blaen am waith un o grwpiau Llywodraeth Cymru y gofynnwyd i mi ei gadeirio a oedd â'r dasg o ddatblygu gweithdrefn gwynion gyffredin. Roeddwn yn falch iawn bod y cyngor a gynigiwyd i'r Prif Weinidog ar Bolisi Enghreifftiol a Chanllawiau ar gyfer trafod cwynion i'w mabwysiadu gan yr holl gyrff sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru wedi'i gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yng Ngorffennaf 2011. Rwyf yn gwybod bod rhai cyrff, gan gynnwys Llywodraeth Cymru ei hun, wedi rhoi'r trefniadau hyn ar waith yn barod a bydd o ddiddordeb mawr i mi weld, yn ystod y flwyddyn nesaf, pa gamau a gymerir gan gyrff eraill o dan fy awdurdodaeth i gyflwyno'r polisi.

Rwyf hefyd wedi croesawu'r cyfle i gymryd rhan mewn trafodaethau ar Fil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru). Er bod yr ymgynghori arno'n dal i fynd ymlaen wrth i mi ysgrifennu hyn, rwyf yn falch bod bwriad i gynnwys darparwyr cartrefi gofal preifat ac asiantaethau gofal cartref, yn ogystal â gwasanaethau gofal lliniarol annibynnol, o fewn fy awdurdodaeth. Yn benodol, mae wedi ymddangos

yn anghyfiawn i mi fod preswylydd mewn cartref gofal yn gallu dod â chŵyn i mi am ofal gwael os yw'r wladwriaeth yn talu am hynny, ond nid os yw ef ei hun yn talu am ei arhosiad yn yr un cartref gofal.

Edrychais hefyd yn ystod y flwyddyn ar drefniadau llywodraethu fy swyddfa. Penderfynais y byddai'r swyddfa mewn lle gwell i ddangos ei bod yn gweithredu'n agored ac yn dryloyw drwy greu Panel Ymgynghorol. Dechreuwyd ar broses recriwtio agored ar ddiwedd y flwyddyn, gyda'r bwriad o benodi aelodau ar ddechrau 2012/13.

Wrth drafod llywodraethu, byddwn ar fai pe na byddwn yn datgan yma fy ngwerthfawrogiad o'r gwaith y mae Mr Laurie Pavelin wedi'i wneud fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio. Daeth ei chwe blynedd yn y swydd i ben ar 31 Mawrth 2012. Rwyf yn wir ddyledus iddo am ei gyngor doeth a'i gefnogaeth ers i mi ymgymryd â swydd yr Ombwdsmon ac rwyf yn diolch iddo am hynny.

Yn olaf, rhaid diolch hefyd i'm staff. Mae pob unigolyn yn y swyddfa yn chwarae rhan bwysig yn ein llwyddiant. Mae'r flwyddyn wedi bod yn un arloesol o ran cyflwyno gwasanaeth newydd, gwell dulliau cyfathrebu a datblygiadau mewn technoleg gwybodaeth. Fodd bynnag, mae wedi bod yr un mor nodedig am y gwaith caled parhaus sydd wedi ein galluogi i ymdopi â llwyth gwaith sy'n cynyddu o hyd – yn hyn o beth, oherwydd y cyfyngiadau ariannol ar wasanaethau cyhoeddus, nid wyf yn rhagweld y bydd newid yn y duedd hon. Nid wyf yn bychanu'r heriau sydd o'n blaen.



Peter Tyndall
Ombwdsmon

# 4. Cwynion Cod Ymddygiad

### Y prif ffigurau

- Cawsom 412 o gwynion newydd, **49% yn fwy** nag yn 2010/11
- Cyfeiriasom 19 o adroddiadau ar ymchwiliadau un ai at bwyllgor safonau neu at Banel Dyfarnu Cymru, **58% yn is** nag yn 2010/11
- Caeasom 345 o achosion, **1% yn is** nag yn 2010/11
- Nid oedd unrhyw ymchwiliadau a oedd yn agored ers mwy na 12 mis ar 31 Mawrth 2012


## Y cwynion a gafwyd

Mae dadansoddiad yn y tabl isod o'r cwynion a gafwyd o dan y Cod Ymddygiad yn ôl y math o awdurdod. Roeddwn yn falch o gofnodi gostyngiad yn nifer y cwynion a gafwyd yn adroddiad y flwyddyn ddiwethaf, ond rwyf wedi bod yn bryderus iawn o weld cynnydd o 49% yn nifer y cwynion a gafwyd yn y flwyddyn hon. Rwyf yn trafod y cynnydd hwn yn ddiweddarach yn yr adran hon.

| | 2011/12 | 2010/11 |
|---|---|---|
| Cyngor Cymuned | 206 | 141 |
| Cyngor Sir/Bwrdeistref Sirol | 177 | 135 |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol | 28 | 1 |
| Awdurdod Heddlu | 1 | - |
| **Cyfanswm** | **412** | **277** |

## Natur y cwynion Cod Ymddygiad 2011/12

Fel y mae'r siart isod yn dangos, roedd y rhan fwyaf o'r cwynion a gafwyd yn 2011/12 yn ymwneud â materion 'cydraddoldeb a pharch' (39% o'i gymharu â 57% yn 2010/11). Fodd bynnag, roedd cynnydd trawiadol yn nifer y cwynion ynghylch 'gwrthrychedd a phriodoldeb' yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, ac roedd 25% o'r cwynion Cod Ymddygiad yn ymwneud â hyn o'i gymharu â 10% yn 2010/11.



## Crynodeb o'r canlyniadau i ymchwiliadau i gwynion Cod Ymddygiad

O'r achosion ynghylch cwynion o dan y cod ymddygiad a ystyriwyd yn 2011/12, caewyd y rhan fwyaf ohonynt o dan y categori 'Achosion a gaewyd ar ôl ystyriaeth gychwynnol'. Mae hyn yn cynnwys penderfyniadau fel y canlynol:

- nad oedd tystiolaeth olwg gyntaf bod y Cod wedi'i dorri
- nad oedd y toriad honedig yn ddigon difrifol i gyfiawnhau cynnal ymchwiliad (ac nad oedd yn debygol o arwain at sancsiwn)
- bod y gŵyn am ddigwyddiad a gafwyd cyn ethol yr aelod (cyn iddo gael ei rwymo gan y Cod).

Nifer yr achosion lle y penderfynais y dylid cyfeirio'r gŵyn un ai at bwyllgor safonau'r awdurdod neu at Banel Dyfarnu Cymru oedd 19 o'i gymharu â 45 yn 2010/11.

| | 2011/12 | 2010/11 |
|---|---|---|
| Achosion a gaewyd ar ôl ystyriaeth gychwynnol | 270 | 194 |
| Tynnu'r gŵyn yn ôl | 12 | 16 |
| Terfynu'r ymchwiliad | 9 | 43 |
| Cwblhau'r ymchwiliad: Dim tystiolaeth o doriad | 7 | 13 |
| Cwblhau'r ymchwiliad: Dim angen cymryd camau | 28 | 38 |
| Cwblhau'r ymchwiliad: Cyfeirio at Bwyllgor Safonau | 15 | 21 |
| Cwblhau'r ymchwiliad: Cyfeirio at y Panel Dyfarnu | 4 | 24 |
| **Cyfanswm y Canlyniadau – cwynion Cod Ymddygiad** | **345** | **349** |

(Mae dadansoddiad manwl o'r canlyniadau i gwynion Cod Ymddygiad a ystyriwyd, fesul awdurdod lleol, yn ystod 2011/12 yn Atodiad C.)


## Cyfnodau penderfynu

Mae'r cyfnodau penderfynu ar gyfer cwynion Cod Ymddygiad isod. Mae'r targedau amser sydd wedi'u gosod ar gyfer cwynion Cod Ymddygiad yn debyg i'r rheini ar gyfer cwynion am gyrff cyhoeddus, h.y.


- dweud wrth achwynwyr a fyddwn yn ymchwilio i'w cwyn o fewn 4 wythnos o'r dyddiad y cawn wybodaeth ddigonol am y gŵyn
- cwblhau achosion o fewn 12 mis ar ôl penderfynu dechrau ymchwilio i gŵyn.

Rwyf yn falch ein bod wedi rhagori ar y targed cyffredinol ar gyfer y llwyth achosion cyfan (cwynion am gyrff cyhoeddus a chwynion o dan y Cod Ymddygiad), sef bodloni'r terfyn amser o bedair wythnos mewn 80% o'r achosion. Fodd bynnag, rhaid i ni ddelio â chwynion Cod Ymddygiad mewn ffordd wahanol i gwynion am gyrff cyhoeddus yn y camau cyntaf. Wrth drafod cwynion Cod Ymddygiad rydym wedi cyrraedd y targed mewn 82% o'r achosion. Ac eto, mae hyn yn well na'r sefyllfa y flwyddyn ddiwethaf, pan gyrhaeddwyd y targed mewn 67% o'r achosion. Mae'r siart isod yn dangos y sefyllfa'n fanwl.

### Cyfnodau penderfynu ar gyfer hysbysu achwynwyr y byddwn yn ymchwilio i'w cwyn



**Cyfnodau penderfynu ar gyfer cwblhau ymchwiliadau Cod Ymddygiad**




Rwyf wedi gwneud sylw mewn Adroddiadau Blynyddol blaenorol am fy mhryder ynghylch yr amser a gymerwyd i ymchwilio i gwynion Cod Ymddygiad. Rwyf hefyd wedi egluro o'r blaen fod hyn yn ganlyniad yn rhannol i'r ffaith bod aelodau etholedig yn gwneud defnydd cynyddol o gynrychiolwyr cyfreithiol. Yn 2009/10 gwnaethom newid ein proses er mwyn gwella ein perfformiad. Rwyf yn falch o roi gwybod bod y newidiadau a gyflwynwyd yn dwyn ffrwyth yn awr. Fel y mae'r siart uchod yn dangos, nid oedd unrhyw ymchwiliad i gŵyn o dan y cod ymddygiad wedi cymryd mwy na 12 mis i'w gwblhau.

## Sylwadau am y cynnydd yn nifer y cwynion o dan y cod ymddygiad

Nid yw'n syndod bod y cynnydd yn nifer y cwynion o dan y cod ymddygiad wedi digwydd yn ystod y flwyddyn cyn cynnal etholiadau'r cynghorau sir. Rwyf yn siomedig dros ben bod y cod yn cael ei ddefnyddio fel hyn i bob golwg.

Rwyf hefyd yn bryderus am arferion penodol sy'n dod i'r amlwg mewn cynghorau tref a chymuned. Cododd angen yn ystod y flwyddyn i ohebu â Chlerc Cyngor Tref Prestatyn ynghylch y pryder yr oedd y ddau ohonom yn ei rannu am nifer y cwynion a gaf mewn cysylltiad ag aelodau Cyngor Tref Prestatyn. Yn ystod 2011/12, cefais 65 o gwynion o blith cyfanswm o 260, sef 32% o'r cwynion am gynghorau tref a chymuned. Mae lefel cwynion o'r fath yn hollol anghymesur. Yn fy marn i, mae hyn yn arwydd o ymwneud gelyniaethus iawn rhwng cynghorwyr a'i gilydd, ac mae'n sicr o leihau'r parch tuag at y Cyngor ymysg ei etholwyr. Rwyf wedi annog y Cyngor i ystyried y ffordd o ymddwyn sy'n arwain at y cwynion hyn a sut y gellid newid ymddygiad i wrthdroi'r duedd hon. Rwyf hefyd yn ymwybodol bod rhai o'r cwynion hyn yn cael eu gwneud gan nifer bach o aelodau o'r cyhoedd a chan un person yn benodol. Byddaf yn ystyried pa gamau pellach y gallaf eu cymryd i ddelio â'r broblem. Yn benodol, os na fydd nifer y cwynion gan aelodau yn erbyn aelodau eraill yn gostwng, mae darpariaethau neilltuol yn y cod

i ddelio â chwynion blinderus ac ni fyddaf yn petruso rhag eu defnyddio. Rwyf wedi annog yr aelodau etholedig ym Mhrestatyn i ddatblygu'r Cyngor fel y bydd yr enw sydd ganddo'n gwella'n gyson.

## Cod Ymddygiad i aelodau awdurdodau lleol – newidiadau mewn ymarfer

Gan gydnabod y pryder am rai agweddau ar y cod a'r defnydd o gwynion at ddibenion gwleidyddol, rwyf wedi cynnal trafodaethau â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), Cymdeithas Ysgrifenyddion y Cynghorau a Chyfreithwyr a Llywodraeth Cymru ar amryw o fesurau ar gyfer diwygio system bresennol y Cod Ymddygiad, y gellir eu cymryd heb fod angen deddfu. Y bwriad yw y bydd y mesurau hyn yn ffordd i gyflwyno proses datrys leol ledled Cymru a ddylai arwain at ostyngiad mawr yn nifer y cwynion gan gynghorwyr yn erbyn cynghorwyr eraill y mae angen eu hystyried gan fy swyddfa.

Cyflwynwyd elfen gyntaf y broses newydd hon ar ddechrau 2012, ac mae'n gymwys i aelodau cynghorau sir/bwrdeistref sirol a chynghorau tref/cymuned. Lle nad wyf yn bwriadu ymchwilio i gŵyn neu lle'r wyf yn bwriadu terfynu ymchwiliad ar ôl dechrau ymchwilio i gŵyn, byddaf yn ysgrifennu at y Swyddog Monitro. Bydd sefyllfa o'r fath yn codi pan fyddaf yn barnu na fyddai Pwyllgor Safonau'n debygol o osod sancsiwn, hyd yn oed pe byddai wedi cael bod y cod wedi'i dorri. Mater i'w ystyried gan y Swyddog Monitro fydd hwnnw wedyn. Os bydd yn barnu'n wahanol am y tebygolrwydd o osod sancsiwn gan y Pwyllgor Safonau, pe byddai hwnnw'n penderfynu bod y Cod wedi'i dorri, byddaf yn trosglwyddo'r ymchwiliad iddo i'w ystyried yn lleol.

Yn Ebrill 2010, mewn ymateb i geisiadau gan swyddogion monitro awdurdodau lleol ac eraill, cyhoeddais ganllawiau i aelodau awdurdodau lleol ar y Cod Ymddygiad Enghreifftiol a gyhoeddwyd yn 2008. Datblygwyd y rhain ar ôl cynnal ymgynghoriad cychwynnol pan ofynnwyd i awdurdodau lleol nodi pa agweddau ar y cod y byddent yn gwerthfawrogi cael canllawiau arnynt, ac ymgynghoriad dilynol â Chymdeithas Ysgrifenyddion y Cynghorau a Chyfreithwyr, Un Llais Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Phanel Dyfarnu Cymru ar y drafft. Fodd bynnag, adolygwyd y canllawiau hynny ddiwedd 2011/12 i adlewyrchu'r newidiadau uchod, ac maent ar gael ar fy ngwefan. Eglurais cyn hynny y dylai'r canllawiau fod yn ddogfen 'fyw' ac mae bwriad i wneud newidiadau pellach a darparu canllawiau pellach ar y cod ar ddechrau 2012/13.

## Gwrandawiadau Pwyllgorau Safonau a Phanel Dyfarnu Cymru – Terfyn Indemnio

Rwyf wedi cynnal trafodaethau hefyd â CLlLC ynghylch maint yr indemniad y mae awdurdodau lleol Cymru'n ei gynnig i'w haelodau pan fyddant yn eu hamddiffyn eu hunain rhag honiadau eu bod wedi torri eu Cod Ymddygiad, yn enwedig wrth fynd gerbron tribiwnlysoedd sydd wedi'u cynnull gan Banel Dyfarnu Cymru.

Rwyf wedi cynnig y dylid gosod terfyn o £10,000. Am fod posibilrwydd i gynghorydd gael ei anghymhwyso, rwyf yn credu, wrth chwilio am gymhariaeth, ei bod yn werth ystyried tribiwnlysoedd cyflogaeth lle y gallai hawlwyr fod wedi colli eu cyflogaeth. Mewn achosion o'r fath, bydd y costau a ddyfernir yn gyfyngedig i £10,000, ac mae hyn yn gymharydd buddiol. Rwyf wedi dweud y byddwn wedyn yn gosod terfyn cyfatebol o £10,000 ar fy nghostau fy hun. Ar adeg ysgrifennu hyn, rwyf yn disgwyl ymateb ffurfiol i'm cynigion ar y mater hwn.

# Atodiad C

## Cwynion Cod Ymddygiad:
## Dadansoddiad Ystadegol o Ganlyniadau Fesul Awdurdod Lleol

## CYNGHORAU SIR/BWRDEISTREF SIROL

| Cyngor Sir/Bwrdeistref Sirol | Cau'r achos ar ôl ystyriaeth gychwynnol | Terfynu | Dim tystiolaeth o doriad | Dim angen cymryd camau | Cyfeirio i'r Pwyllgor Safonau | Cyfeirio i'r Panel Dyfarnu | Tynnu'n ôl | Cyfanswm yr Achosion a Gaewyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 4 | | 1 | | | | | **5** |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 3 | | | | | | | **3** |
| Caerffili | 6 | 1 | | 1 | | | | **8** |
| Caerdydd | 5 | | | 1 | | | | **6** |
| Sir Caerfyrddin | 7 | | | | | | 1 | **8** |
| Ceredigion | 4 | | | | | | | **4** |
| Conwy | 9 | | | | | | | **9** |
| Sir Ddinbych | 5 | | | 1 | 1 | 1 | 1 | **9** |
| Sir y Fflint | 8 | | | 2 | | | 1 | **11** |
| Gwynedd | 2 | | | | | | | **2** |
| Ynys Môn | | | | 1 | 2 | 1 | | **4** |
| Merthyr Tudful | 3 | | | | | | | **3** |
| Sir Fynwy | 7 | | | | | | | **7** |
| Castell-nedd Port Talbot | 1 | | | | | | | **1** |
| Casnewydd | 2 | | | 1 | | | | **3** |
| Sir Benfro | 7 | | | 1 | | | | **8** |
| Powys | 5 | | 1 | | | | | **6** |
| Rhondda Cynon Taf | 8 | | | | 1 | | 1 | **10** |
| Abertawe | 38 | 1 | | | | | 2 | **41** |
| Bro Morgannwg | 12 | | | | | | | **12** |
| Tor-faen | 5 | | | 1 | | 1 | | **7** |
| Wrecsam | 1 | | | | | | | **1** |
| **CYFANSWM** | **142** | **2** | **2** | **9** | **4** | **3** | **6** | **168** |

## CYNGHORAU TREF/CYMUNED

| Cyngor Tref/Cymuned | Cau'r achos ar ôl ystyriaeth gychwynnol | Terfynu | Dim tystiolaeth o doriad | Dim angen cymryd camau | Cyfeirio i'r Pwyllgor Safonau | Cyfeirio i'r Panel Dyfarnu | Tynnu'n ôl | Cyfanswm yr Achosion a Gaewyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tref Coed-duon | 1 | | | | | | | **1** |
| Tref Aberhonddu | 1 | | | | | | | **1** |
| Tref Bwcle | | | | | 3 | | | **3** |
| Tref Frenhinol Caernarfon | 2 | | | | | | 1 | **3** |
| Tref Caerffili | 1 | | | | | | | **1** |
| Cymuned Clydach | 3 | | | | | | | **3** |
| Cymuned Coed-poeth | | | | | | 1 | | **1** |
| Cymuned Cwmllynfell | 1 | | | | | | | **1** |
| Cymuned Dyffryn Ardudwy a Thal-y-bont | 1 | | | | | | | **1** |
| Cymuned Dyffryn Arth | 1 | | | | | | | **1** |
| Cymuned Ffordun | 1 | | | | | | | **1** |
| Tref Gorseinon | 2 | | | | | | | **2** |
| Cymuned Gwersyllt | 1 | | | | | | | **1** |
| Tref Caergybi | 1 | | | | | | | **1** |
| Tref Cydweli | | | | 3 | | | | **3** |
| Cymuned Trelales | 1 | | | | | | | **1** |
| Cymuned Llanddulas a Rhyd-y-foel | | | 1 | | | | | **1** |
| Cymuned Llandegla | 3 | | | | | | | **3** |
| Tref Llandrindod | 2 | | | | | | | **2** |
| Cymuned Llanedi | 2 | | | | | | | **2** |
| Cymuned Llanfair (Gwynedd) | 1 | | | | | | | **1** |
| Cymuned Llanfair Mathafarn Eithaf | 1 | | | | | | | **1** |
| Cymuned Llangynwyd Isaf | 2 | | | | | | 3 | **5** |
| Cymuned Llanidloes Allanol | 1 | | | | | | | **1** |
| Cymuned Llai | | | | 1 | | | | **1** |

## CYNGHORAU TREF/CYMUNED (parhad)

| **Cyngor Tref**/Cymuned | Cau'r achos ar ôl ystyriaeth gychwynnol | Terfynu | Dim tystiolaeth o doriad | Dim angen cymryd camau | Cyfeirio i'r Pwyllgor Safonau | Cyfeirio i'r Panel Dyfarnu | Tynnu'n ôl | Cyfanswm yr Achosion a Gaewyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tref Maesteg | 1 | | | | | | | **1** |
| Cymuned Magwyr a Gwndy | 1 | | | | | | | **1** |
| Cymuned Maenorbŷr | 6 | | 1 | | | | | **7** |
| Tref yr Wyddgrug | 1 | | | | | | | **1** |
| Cymuned y Mwmbwls | 3 | | | | 1 | | 1 | **5** |
| Tref y Drenewydd a Llanllwchaearn | 3 | | | | | | | **3** |
| Cymuned Pelenna | | | | 1 | | | | **1** |
| Tref Penmaen-mawr | 3 | | | | | | | **3** |
| Cymuned Penmynydd a Star | 2 | | | | | | 1 | **3** |
| Cymuned Pentyrch | | | | | 1 | | | **1** |
| Tref Porthcawl | | | | 2 | | | | **2** |
| Tref Prestatyn | 28 | 4 | 3 | 2 | | | | **37** |
| Cymuned y Pil | | 2 | | | 6 | | | **8** |
| Tref y Rhyl | 1 | 1 | | 8 | | | | **10** |
| Tref Rhuthun | 1 | | | | | | | **1** |
| Tref Saltney | 1 | | | | | | | **1** |
| Cymuned Blaendulais | 1 | | | | | | | **1** |
| Tref Shotton | 1 | | | | | | | **1** |
| Cymuned St Arvans | 2 | | | | | | | **2** |
| Cymuned Saint-y-brid | 1 | | | | | | | **1** |
| Cymuned St Harmon | 9 | | | | | | | **9** |
| Cymuned Sili | | | | 1 | | | | **1** |
| Tref Tywyn a Bae Cinmel | 3 | | | | | | | **3** |
| Cymuned Trellech United | 1 | | | | | | | **1** |
| Cymuned y Wig | 7 | | | 1 | | | | **8** |
| Cymuned Ystrad Fflur | 1 | | | | | | | **1** |
| Ystrad Meurig | 1 | | | | | | | **1** |
| **CYFANSWM** | **107** | **7** | **5** | **19** | **11** | **1** | 6 | **156** |

## AWDURDODAU PARC CENEDLAETHOL

| Awdurdod Parc Cenedlaethol | Cau'r achos ar ôl ystyriaeth gychwynnol | Terfynu | Dim tystiolaeth o doriad | Dim angen cymryd camau | Cyfeirio i'r Pwyllgor Safonau | Cyfeirio i'r Panel Dyfarnu | Tynnu'n ôl | Cyfanswm yr Achosion a Gaewyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bannau Brycheiniog | 2 | | | | | | | 2 |
| Arfordir Sir Benfro | 16 | | | | | | | 16 |
| Eryri | 3 | | | | | | | 3 |
| **CYFANSWM** | **21** | | | | | | | **21** |